



COLEG CYMRAEG
CENEDLAETHOL

Canllaw Diffinio Darpariaeth

Addysg Uwch Cyfrwng

Cymraeg a Dwyieithog

Chwefror 2026

Mae'r Coleg yn hapus i roi cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar y ddogfen hon. Cysylltwch â ni: gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cynnwys

Crynodeb.....	iii
Nod ac amcanion.....	iii
Adnabod a diffinio darpariaeth.....	iii
Profiadau dysgu 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog'	iv
Dull cyfrifo canrannau.....	vi
Nodiadau	xi
Canllawiau Llawn.....	0
1. Nod ac amcanion.....	1
2. Adnabod modiwlau cyfrwng Cymraeg.....	1
3. Profiadau dysgu 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog'	4
4. Diffinio canran o fodiwl cyfrwng Cymraeg	5
5. Dull cyfrifo canrannau: model y Coleg	6
6. Prif elfennau modiwlau.....	8
7. Ystyriaethau pellach.....	17
7.1 Isafswm disgwyliadau adnoddau dysgu modiwl cyfrwng Cymraeg.....	17
7.2 Dysgu cydamserol ac anghydamserol.....	17
7.3 Mathau gwahanol o ddysgu cyfeiriedig	18
8. Diffinio darpariaeth 'ddwyieithog'	20
8.1 Beth yw 'dysgu dwyieithog'?	20
8.2 Profiadau dysgu 'gweithredol' neu 'oddefol' drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog	22
8.3 Sut mae cyfrifo ac adrodd dysgu dwyieithog goddefol?.....	24
Atodiad A – enghreifftiau darluniadol.....	27
A. Pennu gwerth credydol modiwl fel cyfrwng Cymraeg	27
B. Adrodd ar fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg	54



Cymorth pellach.....	56
Atodiad B – tabl dulliau addysgu	57

Crynodeb

Nod ac amcanion

Pwrpas y Canllaw hwn yw rhoi arweiniad ar sut i gyfrifo pa gyfran o ddarpariaeth addysg uwch sy'n gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae'n bwysig sicrhau cywirdeb a chysondeb wrth wneud hyn oherwydd:

- pan fydd cyrsiau'n cael eu hyrwyddo a'u marchnata i ddarpar-fyfyrwyr ac i fyfyrwyr, dylai'r wybodaeth am y cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod yn glir, yn ddealladwy ac yn gywir;
- bydd y ffordd y mae'r modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael eu diffinio'n bwysig o ran cywirdeb y data fydd eich sefydliad yn adrodd i HESA, gan fod y data yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyllido, monitro a chyhoeddi.

Adnabod a diffinio darpariaeth

Mae modd adnabod darpariaeth sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn y data mae'ch sefydliad yn adrodd i HESA yn flynyddol. Gwneir hyn:

- i. trwy 'dagio' modiwlau fel rhai sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg; a
- ii. thrwy nodi pa ganran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg.

Mae'r Canllaw hwn yn darparu cyngor a chymorth sut i gyfrifo gwerth canrannol ar gyfer y profiad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a ddarperir mewn modiwl i fyfyrwyr. Fodd bynnag, gellir defnyddio gwerth canran at ddau ddiben gwahanol ac felly gall weithiau fod yn wahanol, hyd yn oed ar gyfer yr un modiwl. Mae'r gwahaniaeth hwn yn cael ei esbonio'n llawn yn y Canllawiau manwl sy'n dilyn:

- (1) y ganran a ddangosir yn y [Disgrifiydd Modiwl](#), sy'n cynrychioli uchafswm cyfran y modiwl sydd **ar gael** yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; ac

- (2) y ganran a **adroddir** i HESA, sy'n adlewyrchu profiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gwirioneddol pob myfyriwr unigol, yn seiliedig ar y gweithgareddau dysgu y maen nhw wedi eu dilyn.

Mae'r Canllaw hwn yn cynnig model ar gyfer cyfrifo'r **ganran sydd ar gael** o fodiwl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gyda chefnogaeth cyfrifiannell. Dylai darparwyr anelu at ddangos y cyfrifiad hwn yn y Disgrifydd Modiwl, fel bod myfyrwyr yn gwybod pa fath o brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i'w ddisgwyl.

Mae'r data a adroddir i HESA yn y pen draw yn seiliedig ar brofiad myfyrwyr unigol. Gall union brofiad myfyrwyr unigol amrywio hyd yn oed o fewn yr un modiwl. Felly, yn ogystal â darparu cyngor ar sut i gyfrifo gwerth canran y profiad dysgu Cymraeg a dwyieithog wrth gynllunio modiwl, mae'r Canllaw hefyd yn esbonio sut y gall y profiad amrywio o unigolyn i unigolyn.

Profiadau dysgu 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog'

Rôl y Coleg yw cefnogi datblygiad, a hyrwyddo argaeledd, profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr. Nid yw hynny'n golygu mai Cymraeg yw unig iaith y dysgu. Mewn gwirionedd, mae'n anochel y bydd cyfran o ddysgu pob myfyriwr – beth bynnag yw'r cwrs fyddan nhw'n astudio – yn digwydd drwy gyfrwng y Saesneg. Felly profiad dwyieithog a gaiff pob myfyriwr, i raddau gwahanol. Gall rhai modiwlau fod yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg – o ran darlithoedd, seminarau, aseiniadau, ayyb; tra gall elfennau o fodiwlau eraill gael eu cyflwyno mewn un iaith neu'r llall, e.e. darlithoedd yn Saesneg, ond dosbarthiadau seminar a grŵp gwaith maes yn Gymraeg. Mae'r rhain i gyd yn cyfrif fel modiwlau sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg.

Mae'r Coleg yn awyddus i bob myfyriwr gael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau dwyieithog yn ystod eu cyfnod yn astudio mewn coleg neu brifysgol. Mae'r Canllaw yn annog darparwyr i sicrhau bod natur y ddarpariaeth a'r ffordd mae'r profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg yn cael eu cyflwyno yn caniatáu hyblygrwydd. Bydd hynny'n caniatáu i

fyfyrwyr sydd efallai'n ddi-hyder yn eu sgiliau Cymraeg i adeiladu a chynyddu dros gyfnod eu hastudiaethau faint o ddysgu cyfrwng Cymraeg a wnânt.

a) Cyfrwng Cymraeg

At ddiben y Canllaw hwn, ystyr darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw darpariaeth lle cynigir profiad dysgu **gweithredol ac ystyrlon** yn y Gymraeg; hynny yw, ble mae myfyrwyr yn gweld, clywed, ac yn siarad Cymraeg o fewn modiwl.

Mewn darlith neu seminar cyfrwng Cymraeg, disgwylir bod yr holl ddeunydd gweledol, e.e. sleidiau, nodiadau darlith, ayyb, yn y Gymraeg neu yn Gymraeg a Saesneg (yn gyfartal ac ar yr un pryd), yn ddwyieithog, bod y ddarlith yn cael ei thraddodi yn y Gymraeg, a bod unrhyw drafodaeth o fewn y dosbarth yn digwydd yn y Gymraeg.

Mewn rhai sefyllfaoedd, mae'n bosib y bydd dwy iaith yn cael eu defnyddio ar yr un pryd, er enghraifft, mewn **dosbarth iaith-gymysg** lle mae'r darlithydd yn weithredol yn defnyddio'r ddwy iaith wrth annerch un grŵp o fyfyrwyr Cymraeg ac un grŵp o fyfyrwyr di-Gymraeg (neu'n defnyddio cyfieithu-ar-y-pryd fel bod y ddau grŵp yn derbyn y ddarlith yn iaith eu dewis). Mae modd cyfrifo hwn hefyd fel dysgu cyfrwng Cymraeg, ond er mwyn iddo fod yn effeithiol, ac i sicrhau profiad dysgu cydradd i'r ddau grŵp iaith, mae angen bod y darlithwyr yn hyddysg mewn technegau addysgu dwyieithog a'u bod yn cynllunio profiadau dysgu'r ddau grŵp iaith yn fwriadus ac yn ofalus.

b) Dwyieithog (goddefol)

Mae gan nifer o sefydliadau fodiwlau lle darperir yr addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ond lle ceir elfen o **brofiad dwyieithog lefel isel, goddefol**, e.e. drwy sleidiau darlith a/neu adnoddau dwyieithog, Cymraeg achlysurol yn y dosbarth, profiad dwyieithog achlysurol ar leoliad.

Mae'n briodol i sefydliadau hyrwyddo modiwlau o'r fath fel rhai sy'n cynnig profiad dysgu dwyieithog. Gellir defnyddio'r profiadau goddefol hyn fel ffordd o godi ymwybyddiaeth

o'r Gymraeg, o fagu hyder rheiny sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg, a gall danio diddordeb rhai myfyrwyr i fynd ati i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg.

Dull cyfrifo canrannau

Wrth ddilyn model y Coleg, bydd modd cyfrifo:

- pa ganran o'r modiwl sydd wedi'i gynllunio i fod ar gael yn y Gymraeg, sef y mwyafswm profiad posib;
- cyfanswm y credydau y bydd myfyriwr unigol wedi'u cwblhau gan ddibynnu ar ba elfennau, o'r mwyafswm posib, y maent wedi'u cwblhau yn Gymraeg

Dylai sefydliadau ddarparu **disgrifydd** sy'n torri i lawr y gwahanol brofiadau dysgu o fewn y modiwl i elfennau unigol (gweler isod), a dangos yn glir pa rai o'r elfennau hyn sydd wedi'u cynllunio i ddigwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen cadw cofnod o'r canrannau cyfrwng Cymraeg a bennwyd i'r modiwlau, a'r dull a ddefnyddiwyd i'w cyfrifo.

Dylai cydlynwyr modiwlau ymgynghori gyda swyddogion data eu sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n briodol gyda rheolau casglu data eu sefydliad, Medr a HESA.

a) Cyfrwng Cymraeg

Lle mae'r profiad dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr yn cynnig profiad cyfrwng Cymraeg **gweithredol**, dylid cyfrifo hynny fel elfen cyfrwng Cymraeg o fewn y disgrifydd modiwl.

Mae'r dull hwn yn cynnig fframwaith sy'n seiliedig ar brif elfennau'r rhan fwyaf o fodiwlau:

A. 80%: Oriau cyswllt e.e. darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, sesiynau labordy

Y prif elfen mewn unrhyw fodiwl cyfrwng Cymraeg yw'r elfen **oriau cyswllt**. Dylid cyfrifo'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg drwy rifo'r holl oriau cyswllt lle mae'r



addysgu'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, allan o gyfanswm holl oriau cyswllt y modiwl.

Mae dulliau addysgu lle mae rhyngweithio gweithredol rhwng y darlithydd neu'r tiwtor a'r myfyrwyr (h.y. lle mae cyfathrebu dwyffordd, ar lafar a/neu yn ysgrifenedig) yn rhoi rôl gweithredol i'r dysgwr ddefnyddio'r iaith; mae hynny'n rhoi profiad mwy cyfoethog o safbwynt ieithyddol. Nid yw'r pwysoliad a ddefnyddir yn y cyfrifiad hwn yn gysylltiedig â faint o gynnwys Cymraeg, ond â lefel y rhyngweithio yn y dull addysgu. Felly mae'r dull cyfrifo'n rhoi pwysoliad o:

- **x0.2** i ddulliau dysgu llai rhyngweithiol (e.e. darlithoedd) i roi 20% o brofiad dysgu'r modiwl;
- **x0.6** i ddulliau dysgu lle defnyddir y Gymraeg mewn ffordd rhyngweithiol a gweithredol (e.e. seminarau) i roi 60% o brofiad dysgu'r modiwl.

Yr unig eithriad i'r uchod yw yn achos modiwlau traethawd hir neu brosiect sy'n 40 credyd neu fwy, ble clustnodir 40% (yn hytrach nag 80%) ar gyfer yr elfen oriau cyswllt. Gweler [paragraff 6.17](#) am fanylion pellach.

B. 10%: Asesiadau e.e. traethawd, cyflwyniad llafar, arholiad

Mewn modiwlau cyfrwng Cymraeg, dylid annog pob myfyriwr i gyflwyno'u hasesiadau yn y Gymraeg. Serch hynny, nid pob myfyriwr sy'n awyddus i wneud hynny, am bob math o resymau, yn aml oherwydd diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg.

Mae'n bosib y bydd rhai myfyrwyr yn barotach i gwblhau asesiadau megis cyflwyniad llafar yn y Gymraeg, nag asesiadau ysgrifenedig (e.e. traethawd, papur arholiad) ac felly dylid ystyried hynny wrth gynllunio natur yr asesiadau o fewn modiwlau unigol ac ar draws rhaglenni astudio, fel bod amrywiaeth o ddulliau asesu'n cael eu defnyddio.



Dylid annog myfyrwyr nad sy'n dewis cwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg i gynyddu dros amser nifer yr asesiadau a gwblhânt yn y Gymraeg.

Os bydd myfyriwr yn cwblhau un neu ragor o'r asesiadau crynodol yn Gymraeg, bydd wedi cyflawni 10% o'r modiwl yn y Gymraeg.

Os bydd myfyriwr yn dewis peidio â chyflwyno unrhyw waith i'w asesu yn y Gymraeg, ni fyddant wedi cwblhau'r 10% hwn o'r profiad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a dylid addasu cofnod HESA'r myfyriwr i ddangos na chwblhaodd holl gredydau cyfrwng Cymraeg posib y modiwl.

Yr unig eithriad i'r uchod yw yn achos modiwlau traethawd hir neu brosiect sy'n 40 credyd neu fwy. Ar gyfer modiwlau o'r fath, dylid clustnodi 50% (yn hytrach na 10%) o'r profiad dysgu ar sail iaith yr asesiad. Bydd hynny'n gadael 40% o'r profiad dysgu ar gyfer yr elfen oriau cyswllt a 10% ar gyfer y dysgu hunan-gyfeiriedig.

C. 10%: Dysgu hunan-gyfeiriedig e.e. amser darllen, paratoi, adolygu

Mae pob modiwl yn cynnwys elfen o ddysgu hunan-gyfeiriedig. Anogir cydlynwyr modiwlau i sicrhau bod rhestrau darllen modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys cymaint o ddeunyddiau dysgu yn y Gymraeg â phosib. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i bob testun ac adnodd dysgu ar fodiwl cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn y Gymraeg. Mewn bywyd bob dydd, mae siaradwyr dwyieithog yn cyfnewid yn gyson rhwng ieithoedd ac mae dysgu sgiliau fel trawsieithu yn werthfawr.

Felly beth bynnag yw cyfrwng iaith y deunydd darllen a'r adnoddau dysgu sydd ar restr ddarllen modiwl, mae'r Coleg yn argymhell pennu 10% o'r profiad dysgu sydd ar gael i'r elfen dysgu hunan-gyfeiriedig (pwysoliad o x 0.1).

Enghraifft: Modiwl 10 credyd gyda'r darlithoedd yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg (10 darlith x 1 awr) ond bod grŵp seminar ar wahân ar gyfer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael ei gynnal yn y Gymraeg (10 seminar x 1 awr).

Bydd y myfyrwyr sydd yn y grŵp seminar cyfrwng Cymraeg fel arfer yn cwblhau pob asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg (cyflwyniad llafar a thraethawd), a darperir rhestr ddarllen sy'n cynnwys rhai testunau Cymraeg (a'r gweddill yn Saesneg) a chyfres o fideos dwyieithog fel adnodd dysgu ategol i'r myfyrwyr.

Mae uchafswm o 80% o'r modiwl hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny'n cyfateb i 8 credyd.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 20			= 60%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					8

Pe byddai'r myfyriwr wedi gwneud un o'r asesiadau yn y Gymraeg (e.e. cyflwyniad llafar yn y Gymraeg, ond cyflwyno traethawd yn Saesneg), byddai hyn wedi cyfrif fel cwblhau **rhai** asesiadau yn y Gymraeg, a byddai'n briodol cofnodi'r myfyriwr fel un sydd wedi cael ei asesu yn Gymraeg. Felly bydd y myfyriwr yma hefyd wedi cwblhau cyfanswm o 8 credyd.

Pe byddai myfyriwr yn dewis cyflwyno'r asesiadau i gyd trwy gyfrwng y Saesneg, dylid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw wrth adrodd i HESA i ddangos mai 7 credyd a gwblhawyd yn y Gymraeg (sef 70% o werth canrannol y modiwl er bod uchafswm o 80% ar gael yn y Gymraeg).

b) Dwyieithog (goddefol)

Lle mae'r profiad dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr yn cynnig profiad lefel isel o ddwyieithrwydd **goddefol** (ond dim elfennau addysgu strwythuredig trwy gyfrwng y Gymraeg), dylid dangos hynny yn y disgrifydd modiwl.

Os yw'r:

i. **holl** ddeunyddiau dysgu sylfaenol ar gael i'r myfyrwyr yn y ddwy iaith¹, e.e.

- sleidiau darlith
- nodiadau darlith
- taflenni gwaith

a/neu

ii. bod y **dysgu yn y dosbarth** yn cynnwys elfen o ddefnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol ar lafar

... bydd y disgrifydd modiwl yn nodi y gellir cyfrifo hyd at uchafswm o 10% o'r modiwl fel profiad dwyieithog. O ganlyniad, bydd 1 credyd o fodiwl 10 credyd yn gallu cael ei gyfrifo fel profiad dwyieithog, 2 credyd o fodiwl 20 credyd, ayyb. Drwy wneud hyn bydd modd cynnwys unrhyw fyfyrwyr sydd wedi profi'r dysgu dwyieithog goddefol hyn, yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg, yn y data sy'n cael ei adrodd i HESA. Mae hyn yn gyson gyda'r nod o gyflwyno amgylchedd dysgu dwyieithog i bawb.

¹ Dylid sicrhau bod y deunyddiau ar gael yn llwyr ac yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith unai gyda'i gilydd neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac ar yr un pryd (h.y. yn hytrach na bod y fersiwn Gymraeg yn ymddangos yn hwyrach neu ar ofyn yn unig).

Pe byddai pob modiwl ar y cynllun gradd yn cynnwys profiadau dysgu dwyieithog, byddai hyn yn cyfateb i ddim mwy na 12 credyd mewn blwyddyn gyfan (allan o 120 credyd). Felly tra bydd y dysgwyr dwyieithog goddefol hyn yn cyfrannu at dargedau sefydliadau ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cap yn sicrhau nad oes gor-adrodd yn y data.

Nodiadau

Asesiadau

Mae gan fyfyrwyr hawl fel arfer i gael eu hasesu yn y Gymraeg neu yn y Saesneg, beth bynnag fo iaith yr addysgu.² O ganlyniad, mae'n bosib y gall myfyriwr sy'n dilyn modiwl sy'n cael ei addysgu 100% drwy gyfrwng y Saesneg ddewis cyflwyno asesiad(au) drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylai sefydliadau felly ofalu fod ganddynt weithdrefnau addas yn eu lle nid yn unig i weithredu'r hawl hwnnw yn ddidrafferth i fyfyrwyr, ond hefyd i gofnodi cyflawniad yr asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg os ydych yn dymuno i'r data sy'n cael ei adrodd i HESA adlewyrchu pob profiad dysgu cyfrwng Cymraeg a brofir gan eich myfyrwyr. Ni fydd modd cydnabod cyflawniad y myfyrwyr hynny yn Gymraeg oni bai fod gwerth canrannol cyfrwng Cymraeg wedi cael ei roi i'r modiwl o flaen llaw wrth gynllunio'r modiwl. O ganlyniad, mae'n bwysig fod cydlynwyr modiwl yn ceisio rhagweld pa fodiwlau y gall fod galw o du'r myfyrwyr i gael cyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg, a dylid rhoi gwerth canrannol o hyd at 10% cyfrwng Cymraeg i'r modiwl ar sail yr asesiadau crynodol. Byddai hyn yn cyfateb i 1 credyd cyfrwng Cymraeg ar fodiwl 10 credyd, neu 2 gredyd ar fodiwl 20 credyd.

² Diogelir hawl myfyrwyr i gyflwyno gwaith ysgrifenedig i'w asesu yn Gymraeg gan Safon 90 a 90A Safonau'r Iaith Gymraeg, a rhaid i sefydliadau beidio â thrin gwaith a gyflwynir yn Gymraeg i'w asesu yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn Saesneg.

Mae'n hanfodol bod modiwlau traethawd hir neu brosiect o 40 credyd neu fwy yn cael eu strwythuro yn y fath fodd fel y gall myfyrwyr gyflwyno eu gwaith i'w asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag yw iaith yr addysgu. Dylai disgrifydd y modiwl nodi'r hawl hon yn benodol, a dylid neilltuo gwerth canrannol cyfrwng Cymraeg o 50% i'r disgrifydd fel yr uchafswm darpariaeth bosibl drwy'r Gymraeg. Dim ond pan fydd myfyriwr yn ymgymryd â'r traethawd hir neu'r prosiect yn Gymraeg y bydd y ganran hon yn cael ei hadrodd i HESA.


Enghreifftiau darluniadol

Ceir cyfres o enghreifftiau yn [Atodiad A](#) ar ddiwedd y Canllaw er mwyn dangos sut y dylid defnyddio model cyfrifo'r Coleg er mwyn dod i farn rhesymol a chyson ar ba ganran o fodiwl sydd yn gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog.

Canllaw Diffinio Darpariaeth Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog




Chwefror 2026



Mae'r Coleg yn hapus i roi cyngor ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar y ddogfen hon.

Cysylltwch â ni:
gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

COLEG
CYMRAEG
CENEDLAETHOL



1. Nod ac amcanion

- 1.1. Mae'r **Canllaw** hwn wedi ei baratoi yn benodol ar gyfer cydlynwyr modiwlau a staff academiaidd yn y sector addysg uwch er mwyn eu cynorthwyo wrth gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i fyfyrwyr.
- 1.2. Darperir cyngor ar sut i gyfrifo'r elfen ddysgu cyfrwng Cymraeg a pha werth canrannol i'w roi i fodiwl o safbwynt y profiad dysgu Cymraeg a dwyieithog a gynlluniwyd. Bydd hyn yn helpu wrth hyrwyddo darpariaeth ac egluro'r profiad a gynigir i fyfyrwyr. Bydd hefyd yn darparu amcangyfrif ar gyfer faint o gredydau cyfrwng Cymraeg fydd ar gael i fyfyrwyr eu hastudio ar eu cynlluniau gradd. Mae **Atodiad A** y Canllaw hwn yn cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n darlunio sut y dylid cyfrifo gwerth canrannol y profiad dysgu Cymraeg a dwyieithog mewn gwahanol fathau o fodiwlau.
- 1.3. Nid canllaw technegol ar gyfer swyddogion data yw hwn, a darperir cyngor i'r swyddogion hynny sy'n gyfrifol am gyflwyno data eich sefydliad i HESA gan Medr. Serch hynny, bydd y ffordd y mae'r modiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi cael eu diffinio yn bwysig o ran cywirdeb a chysondeb y data fydd eich sefydliad yn adrodd i HESA. Oherwydd hynny, wrth gynllunio'r ddarpariaeth dylid ymgynghori gyda swyddogion data eich sefydliad a fydd yn gallu darparu cyngor ar brosesau a rheoliadau sy'n ymwneud â chyflwyno data i Medr a HESA.
- 1.4. Noder hefyd bod y data a adroddir i HESA yn y pen draw yn seiliedig ar brofiad **myfyrwyr unigol**. Gall union brofiad myfyrwyr unigol amrywio hyd yn oed o fewn yr un modiwl. Felly yn ogystal â darparu cyngor ar sut i gyfrifo gwerth canrannol y profiad dysgu Cymraeg a dwyieithog wrth gynllunio modiwl, mae'r Canllaw hefyd yn esbonio sut y gall y profiad amrywio o unigolyn i unigolyn. Mae'r enghreifftiau yn **Atodiad A** yn cynnwys cyngor ar sut i ymdrin â chofnodion myfyrwyr unigol ar gyfer adrodd i HESA.

1.5. Prif ddiben y Canllaw yw sicrhau bod modiwlau addysg uwch sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu diffinio yn gywir ac yn gyson ar draws sefydliadau ac adrannau. Mae profiad y myfyrwyr yn flaenoriaeth a dylid sicrhau bod darpariaeth a ddiffiniwyd fel cyfrwng Cymraeg yn cyfateb i ddisgwyliadau myfyrwyr. Pan fydd cyrsiau addysg uwch yn cael eu hyrwyddo a'u marchnata i fyfyrwyr, dylai'r wybodaeth am y profiadau a'r cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fod yn glir ac yn ddealladwy. Pwrpas y Canllaw hwn yw rhoi arweiniad ar sut mae cyfrifo pa gyfran o'r dysgu sydd yn gyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog mewn ffordd gyson a rhesymol wrth gynllunio darpariaeth addysg uwch.

2. Adnabod modiwlau cyfrwng Cymraeg

- 2.1. Dylai pob modiwl addysg uwch sy'n cynnwys profiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog allu cael ei adnabod yn hawdd fel modiwl sydd yn cynnig profiad 'cyfrwng Cymraeg'. Bydd hyn yn cynorthwyo'r darparwyr a chyrff fel y Coleg Cymraeg wrth gynllunio darpariaeth, ond bydd yn bennaf o gymorth i fyfyrwyr adnabod pa fodiwlau ar eu cynlluniau astudio fydd yn cynnig iddynt brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg, ac i wybod beth i'w ddisgwyl.
- 2.2. Mae ymchwil a gyflawnwyd ar ran y Coleg yn dangos mai un o'r rhwystrau pennaf i rai myfyrwyr ddewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yw diffyg gwybodaeth a diffyg eglurder ynghylch y 'cynnig cyfrwng Cymraeg'. Mae gwaith pellach sydd wedi ei wneud ar ran y Coleg i ddatblygu negeseuon a thechnegau i gynyddu faint o fyfyrwyr sy'n astudio rhan o'u cynlluniau gradd yn y Gymraeg yn pwysleisio'r angen am wybodaeth glir a diamwys am beth yw modiwl cyfrwng Cymraeg a beth yw dysgu dwyieithog, a'r hyn y gallant ei ddisgwyl.

2.3. Mae'r Canllaw hwn yn egluro y gellir defnyddio gwerth canrannol at ddau ddiben gwahanol, ac felly gall fod yn wahanol, wrth ddisgrifio darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog:

- y ganran a ddangosir yn y [Disgrifydd Modiwl](#), sy'n nodi uchafswm cyfran y modiwl sydd wedi'i gynllunio i fod ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog; a'r
- ganran a **adroddwyd** i HESA, sy'n adlewyrchu profiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gwirioneddol pob myfyriwr unigol, yn seiliedig ar y gweithgareddau y maent yn eu dilyn.

2.4. Mae'r Canllaw hwn yn cynnig model ar gyfer cyfrifo'r ganran sydd ar gael o fodiwl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gyda chefnogaeth cyfrifiannell. Dylai darparwyr anelu at ddangos y cyfrifiad hwn yn y Disgrifydd Modiwl, fel bod myfyrwyr yn gwybod pa fath o brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i'w ddisgwyl.

2.5. Bydd gan bob sefydliad ddulliau a gweithdrefnau penodol i adnabod a labelu modiwlau. Mewn rhai sefydliadau, mae modiwlau sy'n cynnwys elfen o ddarparu neu draddodi'r dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn cod pwrpasol, fel bod modd gwahaniaethu rhwng modiwlau 'cyfrwng Cymraeg' a modiwlau 'cyfrwng Saesneg' – er nad dyna'r arfer ym mhob sefydliad.

2.6. Mae'r systemau casglu data ym mhob sefydliad wedi'u datblygu o amgylch gofynion y cofnod HESA. Yn unol â hynny, mae pob sefydliad yn gallu:

- (i) adnabod modiwlau gyda rhywfaint o elfen o ddysgu sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (gan ddefnyddio maes cofnod myfyrwyr MODLANGID HESA); a
- (ii) nodi pa ganran o'r modiwl sydd wedi'i gyflwyno i fyfyrwr yn Gymraeg (maes cofnod myfyriwr LANGPCNT HESA, cyfran o'r Enghraifft Modiwl a ddilynwyd yn Gymraeg).

2.7. Mae'r cyngor sy'n dilyn yn y Canllaw hwn, yn seiliedig ar y swyddogaethau presennol hynny, yn cynnig model cyson i gyfrifo gwerth canran modiwlau cyfrwng Cymraeg a

dwyeithog. Anogir cydlynwyr modiwlau¹ i ddefnyddio'r model wrth gynllunio darpariaeth i amcangyfrif pa ganran o fodiwl a fyddai fel arfer ar gael yn y Gymraeg (er y gallai profiad myfyrwyr unigol amrywio wrth iddynt ddilyn y modiwl).

2.8. Bydd yr ymarferiad hefyd yn gymorth wrth baratoi gwybodaeth y gellid ei rhannu gyda darpar-fyfyrwyr a myfyrwyr er mwyn egluro wrthynt beth fydd cynnwys y modiwl, a natur y profiad cyfrwng Cymraeg a dwyeithog a ddarperir iddynt.

2.9. Gall lefel y profiad dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyeithog amrywio'n fawr o fodiwl i fodiwl, ac mae'r Canllaw yn cynnig cyngor ar sut yn rhesymol i gyfrifo'r gwahanol lefelau hynny o brofiad. Lle nad oes unrhyw brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg strwythuredig wedi cael ei gynllunio'n rhan o fodiwl (o ran oriau cyswllt neu gyfleoedd ffurfiol/anffurfiol o ddysgu) ystyrir rheiny yn fodiwlau cyfrwng Saesneg (h.y. ni fydd unrhyw ganran o'r dysgu ar gael yn y Gymraeg). Fodd bynnag, fel arfer bydd hawl gan fyfyrwyr i gwblhau asesiadau yn y Gymraeg neu yn y Saesneg, beth bynnag yw cyfrwng iaith modiwl.² Ymdrinnir yn fwy llawn ag asesiadau yn hwyrach

¹ Defnyddir y term 'cydlynnydd modiwl / cydlynwyr modiwlau' yn y Canllaw hwn i gyfeirio at yr unigolyn sy'n gyfrifol am arwain y modiwl, ac sydd fel arfer wedi dylunio a chreu'r modiwl. Gall yr union deitl a ddefnyddia sefydliadau amrywio. Yr unigolyn yma sy'n gyfrifol am benderfynu cynnwys y modiwl, sut y caiff ei addysgu a'i asesu, ac arwain y modiwl drwy brosesau ansawdd a dilysu. Yn aml, yr un unigolyn sy'n bennaf gyfrifol am addysgu'r modiwl, ond nid bob tro – yn enwedig os bydd y modiwl wedi cael ei greu yn wreiddiol drwy gyfrwng y Saesneg a bod unigolyn/ion gwahanol yn arwain y modiwl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bwysig fod cydlynnydd y modiwl, a'r sawl sy'n ei ddarparu, yn rhan o'r broses o gyfrifo a disgrifio profiad dysgu cyfrwng Cymraeg y modiwl, fel bod y disgrifydd modiwl wedi cael ei awdurdodi yn briodol.

² Diogelir hawl myfyrwyr i gyflwyno yn Gymraeg unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir fel rhan o asesiad neu arholiad gan Safon 90 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Ymhellach at hynny mae Safon 90 a 90A yn nodi na ddylid trin gwaith a gyflwynir i'w asesu yn Gymraeg yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir yn Saesneg:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/90/schedule/1/part/1/made/welsh>

Mae Canllawiau'r QAA hefyd yn ategu hawl myfyrwyr i gyflwyno gwaith i'w asesu drwy gyfrwng y Gymraeg: <https://www.qaa.ac.uk/cy/newyddion-a-digwyddiadau/newyddion/canllawiau-wedi%27u-diweddar-arholi-ac-asesu-drwy-gyfrwng-y-gymraeg-yng-nghymru>

yn y Canllaw, gan gynnwys amgylchiadau megis lle bydd myfyriwr yn dewis sefyll arholiad neu gyflwyno traethawd neu brosiect, ayyb, yn y Gymraeg ar fodiwl cyfrwng Saesneg.

3. Profiadau dysgu 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog'

- 3.1. Mae'r Canllaw hwn yn ystyried darpariaeth 'cyfrwng Cymraeg' yn bennaf fel darpariaeth lle cynigir profiad dysgu gweithredol ac ystyrlon yn y Gymraeg, a fydd yn cyfrif am 10% neu ragor o gyfrwng iaith y dysgu. Fodd bynnag, mae gan nifer o sefydliadau fodiwlau lle darperir neu draddodir yr addysgu drwy gyfrwng y Saesneg, ond lle ceir elfen o brofiad dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) lefel isel yn y dysgu – e.e. drwy sleidiau darlith sy'n ddwyieithog, adnoddau dysgu sy'n cael eu darparu i'r myfyrwyr yn ddwyieithog, profiad dwyieithog achlysurol ar leoliad, ayyb. Nid yw'r modiwlau hyn yn cynnig profiad dysgu o sylwedd drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr gan taw profiad cyfyngedig a gynigiant. Serch hynny, mae'n briodol i sefydliadau hyrwyddo'r modiwlau hyn fel rhai sy'n cynnig profiad dysgu dwyieithog. (Bydd rhai sefydliadau yn rhoi cod pwrpasol i'r modiwlau hyn sy'n arwyddo eu bod yn fodiwl 'dwyieithog', lle mae hynny'n gyson gydag arferion codio modiwlau y sefydliad.) Gan ddefnyddio'r model sy'n cael ei amlinellu yn y Canllaw hwn, gall pob sefydliad amcangyfrif canran o fodiwl sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae hynny'n cynnwys modiwlau sydd yn bennaf yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Saesneg, ond lle cynigir profiad dwyieithog lefel isel, cyhyd â bod y gwerth canrannol yn ddim uwch na 10% o brofiad dysgu'r modiwl.
- 3.2. Er y gall y math hyn o brofiadau dysgu dwyieithog fod yn gyfyngedig ac yn lefel isel, mae gwerth mewn cyflwyno profiadau o'r math hyn i fyfyrwyr – p'un a ydynt yn siarad Cymraeg neu beidio, ac mae'n briodol i'r profiadau dysgu dwyieithog hyn gael eu hadlewyrchu yn nhrawsysgrifau gradd y myfyrwyr ac yn y data sy'n cael ei

adrodd i HESA cyhyd â bod dim cam-liwio a cham-adrodd y profiad fel mwy na 10% o werth y profiad dysgu. Bydd hefyd yn gymorth wrth esbonio wrth ddarpar-fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol beth yw natur y modiwlau hyn a'r profiad dysgu y gellir ei ddisgwyl, fel bod eglurder mai profiad dysgu cyfyngedig yw'r profiad dysgu dwyieithog hyn. Ymdrinnir â phrofiadau dysgu dwyieithog mewn fwy o fanylder isod gydag arweiniad penodol ar sut mae diffinio a chyfrifo darpariaeth ddwyieithog lefel isel o'r math yma.

4. Diffinio canran o fodiwl cyfrwng Cymraeg

4.1. Wrth gyfrifo pa ganran o fodiwl sydd yn 'gyfrwng Cymraeg', rhaid ystyried pa agweddau o brofiad dysgu y myfyrwyr sydd ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Dylai'r ganran o fodiwl a nodir fel cyfrwng Cymraeg fod yn rhesymol, yn gyson ac yn archwiliadwy. O ganlyniad, cyngorir cydlynwyr modiwl i ddarparu [**Disgrifydd Modiwl**](#) sy'n rhannu'r gwahanol brofiadau dysgu o fewn y modiwl i elfennau neu 'gydrannau' unigol, a dangos yn glir pa rai o'r cydrannau hynny fydd yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae disgrifydd modiwl yn amlinellu amcanion y modiwl, canlyniadau dysgu, cynnwys, dulliau addysgu ac asesu, a gwerth credyd y modiwl. Fel arfer, mae'n cael ei greu gan arweinydd y modiwl, ei gymeradwyo trwy brosesau ansawdd sefydliadol, a'i wneud ar gael i fyfyrwyr trwy lawlyfrau rhaglenni neu amgylcheddau dysgu rhithwir. Fe'i defnyddir hefyd gan staff, arholwyr allanol, a chyrff achredu ar gyfer sicrhau ansawdd. Weithiau, bydd modiwl yn cael ei gyflwyno gan aelod neu aelodau gwahanol o staff i'r cydlynnydd ei hun. Yn yr achosion hynny, dylai tîm dysgu'r modiwl drafod â'i gilydd pa gydrannau fydd ar gael yn y Gymraeg, a phwy fydd yn gyfrifol am hynny, fel bod eglurder.

4.2. Disgwylir i ddarparwyr ddod i **benderfyniad rhesymol** ynghylch pa elfennau o'r dysgu a amcangyfrifir fel 'cyfrwng Cymraeg'. Bydd disgwyl i'r disgrifydd modiwl

amlinellu'n fanwl pa fath o addysgu, a faint ohono a ddarperir ac a dderbynnir (h.y. oriau cyswllt), fydd yn gyfrwng Cymraeg. Dylai'r disgrifydd hefyd nodi'n glir fod y modiwl yn cynnwys dysgu hunan-gyfeiriedig ac asesiadau y mae modd eu cwblhau drwy gyfrwng y Gymraeg. Os mai profiad dysgu dwyieithog lefel isel yn unig a gynigir ar y modiwl, bydd y disgrifydd yn dangos mai uchafswm o 10% o'r modiwl sydd yn gyfrwng Cymraeg a bod hwnnw'n brofiad goddefol dwyieithog. Ceir ymdriniaeth lawnach o ddysgu dwyieithog goddefol yn [adran 8.2](#).

4.3. Oherwydd y bydd y canrannau hyn yn cael eu defnyddio wrth amcangyfrif pa gyfran o fodiwl fydd ar gael yn y Gymraeg, byddant hefyd yn cael eu defnyddio fel sail i'r data fydd yn cael ei gyflwyno gan eich sefydliad i HESA. Bydd angen felly i gydlynwyr modiwlau gadw cofnod o'r canrannau cyfrwng Cymraeg a bennwyd i'w modiwlau, a'r dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r canrannau hyn. Gall y canrannau a'r dull cyfrifo fod yn destun adolygiad yn y dyfodol gan y Coleg neu archwiliad allanol gan Medr. Bydd rhaid felly gallu **amddiffyn** sut y daethpwyd at y cyfrifiad a nodir yn y disgrifydd, a pha ganran o'r modiwl sydd wedi'i gofnodi i fod ar gael yn y Gymraeg.

4.4. Dylai cydlynwyr modiwlau ymgynghori gyda swyddogion data eu sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n briodol gyda rheolau casglu data eu sefydliad, Medr a HESA. Cyfrifoldeb y sefydliad yw sicrhau bod profiad dysgu cyfrwng Cymraeg myfyrwyr yn cael ei gyfrifo a'i adrodd yn gywir ac mewn dull rhesymol. Fodd bynnag, mae'r Canllaw hwn yn cynnig dull addas a chyson i wneud hynny.

5. Dull cyfrifo canrannau: model y Coleg

5.1. Wrth gynllunio modiwl, dylid cyfrifo faint o'r modiwl y bwriedir ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg ar sail faint o'r **oriau dysgu tybiannol** y bydd y myfyrwyr yn eu derbyn neu'n eu profi trwy gyfrwng y Gymraeg. Am bob 10 credyd o ddarpariaeth,

bydd myfyrwyr fel arfer yn cael 100 awr tybiannol o ddysgu.³ Felly dylai'r disgrifydd modiwl nodi'n glir pa elfennau fydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddefnyddio'r nifer oriau cyswllt a gynlluniwyd fel sail i gyfrifo gwerth canrannol y profiad.

5.2. Y profiad dysgu pwysicaf i'r myfyriwr o safbwynt cyfrwng iaith yw'r dysgu gweithredol sy'n digwydd yng nghwmni darlithydd neu diwtor a'r myfyrwyr eraill. Bydd sesiynau dysgu (fel arfer ar amserlen y myfyrwyr) sy'n cael eu harwain a'u darparu gan ddarlithydd, tiwtor neu oruchwyliwr yn gallu cymryd sawl ffurf – megis darlith, seminar, tiwtorial, sesiwn ymarferol, sesiwn labordy, profiad dysgu ar leoliad, ayyb. Mae'r dysgu gweithredol (o ran iaith) yn digwydd yn enwedig lle mae elfen o ryngweithio a chyfathrebu dwyffordd yn y sesiwn rhwng y darlithydd a'r myfyrwyr, a'r myfyrwyr â'i gilydd. Fodd bynnag, bydd yr oriau dysgu tybiannol hefyd yn cynnwys elfennau eraill o ddysgu, ac mae'r Canllaw hwn yn cynnig arweiniad ar sut i gydnabod rheiny hefyd.

5.3. Wrth gyfrifo profiad cyfrwng Cymraeg modiwl yn ystod y cyfnod cynllunio, a phwyso a mesur y gwahanol 'gydrannau dysgu' oddi fewn i fodiwl, dylid rhoi'r pwys mwyaf – gwerth hyd at 80% o'r profiad dysgu cyfan – i'r elfen a addysgir yn ystod oriau cyswllt rhwng y darlithydd a'r myfyrwyr. Dylid hefyd gyfrif iaith yr asesu a iaith y dysgu hunan-gyfeiriedig yn y fformiwla, ond gyda phwysoliad llai – gwerth 10% (yr un) – o'r profiad dysgu.

5.4. Mae'r model a ganlyn yn cynnig fframwaith sylfaenol sy'n rhesymol, ac yn seiliedig ar brif elfennau (neu 'gydrannau') y rhan fwyaf o fodiwlau, gan roi'r pwysoliad pennaf i'r dysgu mwy strwythuredig sydd wedi ei arwain gan staff addysgu:

A. Addysgu (oriau cyswllt) (80%)

³ <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-03/220323-llyfryn-fframwaith-credydau-a-chymwysterau-cymru.pdf>

B. Asesiadau (10%)

C. Dysgu hunan-gyfeiriedig (10%)

6. Prif elfennau modiwlau

A. Addysgu (oriau cyswllt) (gwerth hyd at 80% o gyfrwng iaith y profiad dysgu)

(e.e. darlithoedd, seminarau, tiwtorialau, sesiynau labordy, ayyb)

- 6.1. Y prif elfen neu 'gydran' o ddysgu mewn unrhyw fodiwl – yn enwedig o safbwynt rheoli cyfrwng iaith y dysgu – yw'r elfen addysgedig, fel arfer yn ystod oriau cyswllt ar yr amserlen, rhwng y darlithydd neu'r tiwtor a'r myfyrwyr. Mae model cyfrifo'r Coleg yn pennu 80% o'r profiad dysgu i'r cydran hwn. Bydd yr addysgu yn cael ei ddarparu neu draddodi mewn ffurf strwythuredig (fel arfer yn ffurfiol ond weithiau yn anffurfiol, gan ddibynnu ar natur y dull darparu), a bydd yr addysgu fel arfer yn digwydd trwy gyfrwng un iaith yn bennaf. Er enghraifft, 10 darlith a 10 seminar yn cael eu darparu gan un darlithydd dros gyfnod o un semester (cyfanswm 20 awr cyswllt strwythuredig).
- 6.2. Dylid cyfrifo'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg drwy cyfrif yr holl oriau cyswllt lle mae'r addysgu yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, allan o gyfanswm holl oriau cyswllt y modiwl. Rhydd hyn ganran ar gyfer faint o'r profiad dysgu o fewn y cydran hwnnw o'r addysgu (oriau cyswllt) sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft:

Enghraifft 1:

10 darlith cyfrwng Cymraeg (allan o gyfanswm o 10 darlith ar y modiwl) = 100%

10 seminar cyfrwng Cymraeg (allan o gyfanswm o 10 seminar ar y modiwl) = 100%

= cyfanswm o 20 awr cyswllt trwy gyfrwng y Gymraeg

Enghraifft 2:

0 darlith cyfrwng Cymraeg (10 darlith yn hytrach yn gyfrwng Saesneg) = 0%

10 seminar cyfrwng Cymraeg = 100%

= cyfanswm o 10 awr cyfrwng Cymraeg (allan o gyfanswm o 20 awr)

- 6.3. Fodd bynnag, dylid cydnabod bod gwahanol fathau o addysgu yn ystod oriau cyswllt hefyd yn rhoi profiad gwahanol – a bod rhai profiadau yn fwy cyfoethog a chynhwysfawr na'i gilydd o safbwynt ieithyddol y profiad dysgu.
- 6.4. Mae dulliau addysgu lle mae rhyngweithio gweithredol rhwng y darlithydd neu'r tiwtor a'r myfyrwyr – h.y. lle mae cyfathrebu dwyffordd, ar lafar a/neu yn ysgrifenedig – yn rhoi rôl ymarferol a gweithredol i'r dysgwr ddefnyddio ac arfer yr iaith. Oherwydd hynny, mae'n briodol ystyried wrth gyfrifo cyfrwng y profiad dysgu pa mor weithredol yw'r profiad ieithyddol fesul cydran o'r oriau cyswllt. Felly oddi fewn i'r 80% o brofiad dysgu sydd wedi ei neilltuo i'r elfen o addysgu, gellir yn rhesymol nodi bod 60% o'r profiad cyfrwng Cymraeg yn perthyn i foddau dysgu lle defnyddir iaith mewn ffordd rhyngweithiol (e.e. tiwtorialau a seminarau, lle mae cyfathrebu nôl a mlaen rhwng y darlithydd a'r myfyrwyr a lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n gyfrwng gweithredol o'r rhyngweithio), tra bod yr 20% arall o'r profiad cyfrwng Cymraeg yn perthyn i foddau dysgu llai rhyngweithiol (e.e. darlithoedd, lle mae'r cyfathrebu i un cyfeiriad yn unig o du'r darlithydd).
- 6.5. Felly yn yr enghraifft gyntaf uchod, mae'r holl ddarlithoedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (felly 20% o'r 80% tybiannol sydd ar gael o ran profiad y modiwl cyfan), a'r holl seminarau (felly 60% o'r 80% tybiannol sydd ar gael) – gan roi cyfanswm o 80% (yr uchafswm posib) o brofiad dysgu y modiwl, ar sail yr addysgu a draddodir ac a dderbynnir, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.6. Yn yr ail enghraifft uchod, y seminarau yn unig sydd ar gael yn y Gymraeg. Ond oherwydd bod mwy o werth yn ieithyddol i'r profiad dysgu hwnnw beth bynnag –

oherwydd natur rhyngweithiol y dysgu a'r ffaith fod y myfyrwyr yn weithredol yn defnyddio'r Gymraeg – mae 60% o'r modiwl, ar sail yr addysgu a draddodir ac a derbynnir, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

- 6.7. Rhoddir enghreifftiau yn [Atodiad A](#) o'r Canllaw hwn er mwyn darlunio gwahanol fathau o fodiwlau. Fel fydd yn cael ei ddarlunio islaw, ym model cyfrifo'r Coleg mae'r cydran a addysgir o'r modiwl (yn yr oriau cyswllt) cyfwerth â chyfanswm o 80% o brofiad dysgu modiwl, ac argymhellir rhoi pwysoliad o x0.6 i foddau dysgu lle defnyddir y Gymraeg mewn ffordd rhyngweithiol a gweithredol (e.e. seminarau) i roi 60% o brofiad dysgu y modiwl, a phwysoliad o x0.2 i foddau dysgu llai rhyngweithiol (e.e. darlithoedd) i roi 20% o brofiad dysgu y modiwl.
- 6.8. Nod y Coleg yw cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhan o'u hastudiaethau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly mae'n bwysig iawn fod cydlynwyr modiwlau yn ystyried sut orau i gyflwyno profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg i'w darpariaeth a chynllunio hynny mewn ffordd sy'n cynnig profiad ystyrlon a chyfoethog, ond sydd hefyd yn hygyrch ac yn hyblyg. Bydd rhai myfyrwyr yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle posib i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, felly lle mae modd dylid sicrhau bod pob cydran o'r dysgu ar gael yn y Gymraeg. Bydd rhai myfyrwyr eraill, serch hynny, yn llai sicr ac o bosib yn dymuno ymgymryd â rhai elfennau yn unig o'r ddarpariaeth yn y Gymraeg – efallai yr elfennau mwy anffurfiol, rhyngweithiol – ac adeiladu eu profiad a'u hymgysylltiad â dysgu cyfrwng Cymraeg yn raddol dros gyfnod eu rhaglen astudio. Sicrhau hyblygrwydd a mynediad hygyrch i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r nod, gan alluogi symud hawdd a dilyffethair rhwng dysgu cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg (a chyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg pan fo angen), a rhoi cyfle i fyfyrwyr feithrin eu sgiliau iaith Gymraeg dros amser ac i ddatblygu fel unigolion dwyieithog hyderus. Mae'r Coleg yn cefnogi sawl prosiect ar hyn o bryd i ddatblygu methodolegau addysgu sy'n hwyluso hyn ac i fewnblannu profiadau dysgu

cyfrwng Cymraeg mewn modiwlau, a bydd cyngor ac arferion da yn sgil y prosiectau hynny yn cael eu rhannu maes o law.

B. Asesiadau (gwerth hyd at 10% o gyfrwng iaith y profiad dysgu)

(e.e. traethawd, cyflwyniad llafar, arholiad, ayyb)

- 6.9. Tra mai'r cydran a addysgir fel a ddisgrifiwyd uchod yw'r elfen bwysicaf o brofiad dysgu y myfyrwyr wrth gyfrifo'r profiad cyfrwng Cymraeg, mae'n bwysig hefyd cydnabod iaith yr asesiadau a gyflawnir fel rhan o fodiwl.
- 6.10. Mae cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg yn brawf clir a mesuradwy o allu unigolyn o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgiadol a ieithyddol. Dylid felly anelu at, ac annog pob myfyriwr i, gyflwyno eu hasesiadau yn y Gymraeg mewn modiwlau cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, nid pob myfyriwr sy'n awyddus i gwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg, am bob math o resymau, ond fynychaf oherwydd diffyg hyder yn eu sgiliau Cymraeg. Dylai sefydliadau felly ddarparu cefnogaeth a chymorth parhaus i fyfyrwyr gallu gwella eu sgiliau iaith fel rhan o'u haddysg.
- 6.11. Fel arfer, disgwylir i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith i'w asesu yn iaith yr addysgu. Ar gyfer modiwl cyfrwng Cymraeg, mae'n rhesymol disgwyl y bydd myfyrwyr fel arfer yn cyflwyno eu gwaith i'w asesu trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly wrth gynllunio modiwl ac amcangyfrif gwerth canrannol y profiad cyfrwng Cymraeg fydd ar gael, mae model cyfrifo'r Coleg yn argymhell pennu 10% o'r profiad dysgu sydd ar gael i'r cydran asesu.
- 6.12. Serch hynny, nid pob myfyriwr fydd yn cwblhau'r asesiadau yn Gymraeg a felly ni fyddant wedi cwblhau y 10% hwn o'r profiad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae modd addasu cofnod myfyrwyr unigol wrth adrodd i HESA i ddangos pa gyfran o'r ganran cyfrwng Cymraeg sydd ar gael y mae myfyriwr wedi ei gwblhau.
- 6.13. Mae'r enghreifftiau a roddir yn [Atodiad A](#) o'r Canllaw hwn yn dangos (i) pa ganran o'r modiwl sydd wedi ei gynllunio i fod ar gael yn y Gymraeg, a (ii) cyfanswm y

credydau y bydd myfyriwr unigol *wedi eu cwblhau* gan ddibynnu ar ba gydrannau o'r dysgu y maent *wedi eu cwblhau* yn Gymraeg.

- 6.14. Dylid annog myfyrwyr, lle bo angen, i gwblhau rhai os nad y cyfan o asesiadau crynodol (*summative*) ffurfiol y modiwl – sef yr asesiadau sy'n cyfrif tuag at farc terfynol y modiwl – trwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod hynny'n ffordd effeithiol o fesur eu cynnydd a'u cyrhaeddiad o safbwynt eu sgiliau iaith yn ogystal â'u dealltwriaeth o'r pwnc.
- 6.15. Fodd bynnag, fel gyda'r addysgu strwythuredig, dylid arddel a hyrwyddo hyblygrwydd wrth ddelio gyda chyfrwng iaith yr asesiadau ac annog myfyrwyr nad sy'n dewis cwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg i gynyddu dros amser nifer yr asesiadau a gwblhânt yn y Gymraeg. Mae'n bosib y bydd rhai myfyrwyr yn barotach i gwblhau asesiadau megis cyflwyniad llafar, cywaith grŵp, ayyb, yn y Gymraeg, nag asesiadau ysgrifenedig (e.e. traethawd, papur arholiad, ayyb) ac felly dylid ystyried hynny wrth gynllunio natur yr asesiadau o fewn modiwlau unigol ac ar draws rhaglenni astudio, fel bod amrywiaeth o ddulliau asesu yn cael eu defnyddio. I'r rheiny sydd lleiaf parod i gwblhau asesiadau crynodol y modiwl yn Gymraeg, gellid eu hannog i ddechrau gyda rhai o'u hasesiadau ffurfiannol (*formative*) yn Gymraeg yn gyntaf. Ymdrinnir ag asesiadau ffurfiannol o dan yr adran nesaf.
- 6.16. Er mwyn cadw'r fformiwla cyfrifo mor syml â phosib, argymhellir neilltuo 10% o werth cyfanswm profiad dysgu cyfrwng Cymraeg modiwl i'r asesiadau. Rhagdybir ar fodiwl cyfrwng Cymraeg y bydd myfyrwyr yn cwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg, ac felly bydd 10% o gyfanswm gwerth y modiwl sydd *ar gael* yn Gymraeg yn seiliedig ar yr asesiadau. Felly, os bydd myfyriwr yn cwblhau un neu ragor o'r asesiadau crynodol yn Gymraeg, bydd *wedi cyflawni* 10% o'r modiwl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr yn dewis peidio â chyflwyno unrhyw waith i'w asesu

yn y Gymraeg, dylid addasu cofnod HESA y myfyriwr i ddangos na chwblhaodd holl gredydau cyfrwng Cymraeg posib y modiwl.

- 6.17. Yr unig eithriad i'r cyngor uchod yw yn achos modiwlau traethawd hir neu brosiect sydd yn 40 credyd neu fwy. Oherwydd mai'r traethawd hir neu'r prosiect ei hun yw prif gydran y profiad dysgu, rhaid cydnabod hynny'n briodol wrth gyfrifo gwerth cyfrwng Cymraeg y modiwl. Mae'n bosib y bydd rhai oriau cyswllt strwythuredig yn rhan o'r modiwl, e.e. 5 tiwtorial hanner awr un-i-un gyda'r darlithydd, a dylid cyfrifo gwerth ar gyfer rheiny o fewn profiad dysgu y myfyriwr. Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw fodiwl traethawd hir neu brosiect sy'n 40 credyd neu fwy **dylid clustnodi 50% o'r profiad dysgu ar sail iaith yr asesiad**. Bydd hynny'n gadael 40% o'r profiad dysgu ar gyfer y cydran sydd wedi ei addysgu (oriau cyswllt) a 10% ar gyfer y dysgu hunan-gyfeiriedig.
- 6.18. Cofier hefyd, fel y nodwyd ynghynt, mae gan fyfyrwyr hawl fel arfer i gael eu hasesu yn iaith eu dewis, beth bynnag fo iaith yr addysgu. O ganlyniad, mae'n bosib y gall myfyriwr sy'n dilyn modiwl sy'n cael ei addysgu 100% drwy gyfrwng y Saesneg ddewis cyflwyno asesiad(au) drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai sefydliadau felly ofalu fod ganddynt weithdrefnau addas yn eu lle nid yn unig i weithredu'r hawl hwnnw yn ddidrafferth i fyfyrwyr, ond hefyd i gofnodi cyflawniad yr elfen asesu o'r profiad dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg os dymunir i'r data sy'n cael ei adrodd i HESA adlewyrchu pob profiad dysgu cyfrwng Cymraeg a brofir gan bob myfyriwr.
- 6.19. Mae'n bwysig fod cydlynwyr modiwl yn ceisio rhagweld pa fodiwlau y gall fod galw o du'r myfyrwyr i gael cyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg. Yn ddelfrydol, dylid gwneud pob ymdrech i gynnig profiad dysgu strwythuredig cyfrwng Cymraeg i gyd-fynd â'r modiwlau hyn – hyd yn oed os mai dysgu dwyieithog lefel isel yn unig a gynnigir (e.e drwy sicrhau bod sleidiau darlith yn ddwyieithog, ayyb). Ond fan lleiaf, os ydyw'n debygol y bydd rhai myfyrwyr yn dewis cyflwyno eu gwaith yn Gymraeg ar fodiwl sydd fel arall yn fodiwl cyfrwng Saesneg, dylid nodi hynny'n glir yn y

disgrifydd modiwl a gellir rhoi gwerth canrannol o hyd at 10% cyfrwng Cymraeg i'r modiwl ar sail yr asesiadau crynodol. Felly gan gadw at bwysoliad o x0.1 – neu 10% o werth credydol y modiwl cyfan – byddai hyn y cyfateb i 1 credyd cyfrwng Cymraeg ar fodiwl 10 credyd, neu 2 gredyd ar fodiwl 20 credyd, ayyb.

- 6.20. Mae'n bwysig iawn, felly, fod modiwlau traethawd hir neu brosiect sydd yn 40 credyd neu fwy yn cael eu cynllunio fel rhai y bydd modd cyflwyno gwaith i'w asesu drwy gyfrwng y Gymraeg – beth bynnag yw iaith y dysgu sy'n cael ei ddarparu a'i dderbyn ar y modiwl. Ar fodiwl traethawd hir neu brosiect 40 credyd neu fwy, lle mae'r asesiad yn cyfrif am 50% o werth credydol y modiwl cyfan, rhaid sicrhau bod y disgrifydd modiwl yn nodi'n glir y potensial i fyfyrwyr gyflwyno eu gwaith i'w asesu yn Gymraeg, a bod gwerth canrannol cyfrwng Cymraeg ei roi i'r modiwl.
- 6.21. Sylwer, fodd bynnag, na fydd pob myfyriwr sydd wedi dilyn modiwl lle mae 10% neu 50% o'r modiwl ar gael yn Gymraeg (yn seiliedig ar y cyfle i gyflwyno gwaith i'w asesu) yn dewis cwblhau unrhyw ran o'u hasesiad yn Gymraeg. Felly ni ddylai darparwyr adrodd credyd cyfrwng Cymraeg i bob myfyriwr ar fodiwl o'r fath. Yn hytrach, dim ond y myfyrwyr hynny sy'n cwblhau un neu fwy o asesiadau yn y Gymraeg ddylai gael eu cofnodi fel rhai sydd â chredydau cyfrwng Cymraeg. Dylid cofnodi pob myfyriwr arall fel un sydd â 0 credyd cyfrwng Cymraeg, er bod y modiwl ei hun wedi'i gofnodi fel un sydd ar gael yn Gymraeg.
- 6.22. Er y dylid nodi'n glir yn y disgrifydd modiwl fod modd cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg ar fodiwlau o'r math yma, ni ddylid eu marchnata a'u hyrwyddo fel rhai 'cyfrwng Cymraeg' a rhoi camargraff i'r myfyrwyr o'r hyn y gellid ei ddisgwyl i'r modiwl. Dim ond modiwlau lle bydd elfen(nau) o'r addysgu a ddarperir ac a dderbynnir yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog y dylid eu marchnata fel 'cyfrwng Cymraeg' neu ddwyieithog. Nid yw'r ffaith fod myfyrwyr yn gallu cyflwyno asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddigon ynddo'i hun i

gyfiawnhau galw modiwl yn un cyfrwng Cymraeg, rhannol cyfrwng Cymraeg, neu ddwyieithog.

- 6.23. Er y dylai cydlynwyr modiwlau, wrth gynllunio'r ddarpariaeth, wneud pob ymdrech i asesu a yw unrhyw fyfyrwr yn debygol o gyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg, a neilltuo gwerth canrannol tybiannol cyfrwng Cymraeg iddo, gellir diwygio data a gyflwynir i HESA ar gyfer myfyrwyr unigol i ddangos eu bod wedi cwblhau canran o fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg er ei fod fel arall yn fodiwl cyfrwng Saesneg. Ar gyfer unrhyw achosion unigol lle mae myfyriwr wedi cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg, ar fodiwl a ddarperir fel arall yn gyfan gwbl drwy gyfrwng Saesneg, a lle nad oes gwerth canrannol tybiannol cyfrwng Cymraeg wedi'i roi i'r modiwl, cyngor y Canllaw hwn yw diwygio cofnod y myfyriwr unigol wrth ddychwelyd i HESA.

C. Dysgu hunan-gyfeiriedig (gwerth hyd at 10% o gyfrwng iaith y profiad dysgu)

(e.e. amser darllen, paratoi, adfyfrio, ayyb)

- 6.24. Mae pob modiwl yn cynnwys elfen o ddysgu hunan-gyfeiriedig. Mae'r dysgu hwn yn ychwanegol at yr oriau cyswllt strwythuredig ac yn cynrychioli mewnbwn annibynnol y myfyrwr i'w dysgu trwy'r gwaith darllen a wnânt, adfyfrio, adolygu, asesiadau ffurfiannol (*formative assessments*), paratoi ar gyfer seminar, ayyb.
- 6.25. Unwaith eto, rhagdybir y bydd pob myfyriwr sy'n dilyn modiwl cyfrwng Cymraeg yn cwblhau eu dysgu hunan-gyfeiriedig hefyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac o ganlyniad mae'n briodol cynnwys y dysgu hunan-gyfeiriedig fel elfen neu 'gydran' o brofiad dysgu cyfrwng Cymraeg y modiwl. Felly wrth gynllunio modiwl ac amcangyfrif gwerth canrannol y profiad cyfrwng Cymraeg fydd ar gael, mae model cyfrifo'r Coleg yn argymhell pennu 10% o'r profiad dysgu sydd ar gael i'r cydran dysgu hunan-gyfeiriedig.
- 6.26. Mewn modiwl cyfrwng Cymraeg, bydd o leiaf peth o'r deunydd darllen a'r adnoddau dysgu sydd ar gael i gefnogi'r modiwl ar gael yn y Gymraeg. Anogir

cydlynwyr modiwlau i sicrhau bod rhestrau darllen modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys cymaint o ddeunyddiau dysgu yn y Gymraeg â phosib, ac os oes prinder deunydd, i gynhyrchu deunydd cyfrwng Cymraeg addas i lenwi'r bwlch. (Gall y Coleg gefnogi pynciau lle mae prinder deunydd yn y Gymraeg drwy ein cronfeydd prosiectau a Grantiau Bach).

- 6.27. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i bob testun ac adnodd dysgu ar fodiwl cyfrwng Cymraeg fod ar gael yn y Gymraeg. Nid yw hynny'n ymarferol bosib nac yn rhesymol. Bydd nifer o ffynonellau a deunyddiau dysgu ac ymchwil ar gael i fyfyrwyr sydd wedi'u cyhoeddi mewn cyfnodolion, monograffau a llwyfannau digidol cyfrwng Saesneg, yn ogystal ag ieithoedd eraill, ac mae hynny'n cyfoethogi dysgu'r myfyrwyr. Dyma beth yw natur addysg ddwyieithog ac amlieithog ar draws y byd. Mewn bywyd bob dydd, mae siaradwyr dwyieithog yn cyfnewid yn gyson rhwng ieithoedd ac mae dysgu sgiliau fel trawsieithu yn bwysig ac yn werthfawr.
- 6.28. Felly beth bynnag yw cyfrwng iaith y deunydd darllen a'r adnoddau dysgu sydd ar restr ddarllen modiwl, caiff y dysgu hunan-gyfeiriedig ei gynnwys fel cydran o brofiad dysgu y myfyrwyr – cyfwerth â 10% (a'i bwysoli fel $\times 0.1$) o brofiad dysgu a gwerth credydol cyfrwng Cymraeg y modiwl. (Gw. **Atodiad A** ar gyfer enghreifftiau.)
- 6.29. Bydd rhai modiwlau hefyd yn cynnwys asesiadau ffurfiannol er mwyn olrhain cynnydd myfyrwyr. Ni fydd yr asesiadau hyn yn cyfrif tuag at farc terfynol modiwl, ond cânt eu defnyddio gan y cydlynnydd / tîm addysgu i sicrhau bod y myfyrwyr yn deall yr hyn maen nhw'n astudio. Gall yr asesiadau hyn fod ar ffurf asesiadau byrion, darllen a deall, taflenni problemau, cwisiau, ayyb. Disgwylir bod pob asesiad ffurfiannol sy'n cael eu rhoi i'r myfyrwyr ar fodiwl cyfrwng Cymraeg fod ar gael iddynt yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 6.30. Fel gyda'r asesiadau crynodol, ar fodiwl cyfrwng Cymraeg rhagdybir mai yn y Gymraeg y bydd myfyrwyr yn cwblhau'r asesiadau ffurfiannol. Fodd bynnag, pe bai myfyriwr yn dewis peidio â chwblhau un neu ragor o'r asesiadau ffurfiannol trwy

gyfrwng y Gymraeg, ni ddylid newid cofnod y myfyriwr i ddangos bod 0% o'r dysgu hunan-gyfeiriedig wedi ei gwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid caniatáu elfen o ddisgresiwn i gymryd i ystyriaeth ymdrech ac ymgysylltiad y myfyriwr â'r dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel a nodwyd eisoes, weithiau bydd rhai myfyrwyr sy'n ddi-hyder yn eu sgiliau iaith Gymraeg yn anfoddog i gyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg. Dylid felly achub pob cyfle i'w hannog a'u cefnogi i gwblhau'r asesiadau ffurfiannol yn y Gymraeg er mwyn codi eu hyder. Gall hyn fod yn gam tuag at eu hannog i gwblhau rhai o'r asesiadau crynodol hefyd yn y Gymraeg.

Ceir cyfres o enghreifftiau darluniadol yn **Atodiad A** ar ddiwedd y Canllaw hwn er mwyn dangos sut y dylid defnyddio model cyfrifo'r Coleg er mwyn dod i farn rhesymol a chyson ar ba ganran o fodiwl sydd yn gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog.

7. Ystyriaethau pellach

7.1 *Isafswm disgwyliau adnoddau dysgu modiwl cyfrwng Cymraeg*

- 7.1.1 Mae'r Coleg yn disgwyl fel isafswm fod pob deunydd dysgu atodol a **ddarperir i fyfyrwyr ar fodiwl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog gan gydlynnydd y modiwl / y darlithydd**, yn cael eu darparu iddynt **yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog**, e.e. sleidiau, nodiadau darlith, taflenni, astudiaethau achos, ayyb.

7.2 *Dysgu cydamserol ac anghydamserol*

- 7.2.1 Gwneir defnydd cynyddol o ddysgu anghydamserol i ategu a chyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr. Fel arfer, darperir y dysgu cydamserol (*synchronous*) ar ffurf oriau cyswllt wyneb-yn-wyneb sydd wedi'u hamserlennu. Gall hynny ddigwydd unai mewn person neu ar-lein. Darperir dysgu anghydamserol (*asynchronous*) fel arfer ar ffurf pecynnau dysgu hunan-gyfeiriedig, cyflwyniadau fideo sydd wedi eu blaenrecordio, cwisiau neu brofion ar-lein, ayyb, ac yn gallu cael eu gwyllo neu eu

cwblhau gan y myfyrwyr ar unrhyw adeg ac yn unol â'u dewis amser nhw. Gall modiwlau cyfan weithiau gael eu darparu yn anghydamserol.

7.2.2 Gellir yn rhesymol ddilysu a hyrwyddo modiwl sy'n cynnwys cydrannau anghydamserol fel un cyfrwng Cymraeg gan ddilyn dull tebyg i'r un a ddisgrifir uchod ar gyfer 'Addysgu (oriau cyswllt)'.

7.2.3 Bydd angen cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y myfyrwyr yn **defnyddio'r** deunyddiau anghydamserol cyfrwng Cymraeg yn weithredol wrth ddysgu, yn hytrach na'u bod yn cael eu datblygu a'u darparu ond bod dim defnydd ohonynt. Os oes deunyddiau anghydamserol cyfrwng Saesneg cyfatebol ar gael i'r myfyrwyr ar gyfer y modiwl, ni fydd presenoldeb fersiwn cyfrwng Cymraeg o'r deunyddiau ar blatfform dysgu y sefydliad yn ddigonol ynddo'i hun i gyfiawnhau adrodd y myfyrwyr fel dysgwyr cyfrwng Cymraeg: rhaid annog myfyrwyr i ddefnyddio'r deunyddiau cyfrwng Cymraeg hyn a dylai cydlynwyr modiwlau ddatblygu'r arfer o wirio bob hyn a hyn fod y myfyrwyr yn defnyddio'r deunyddiau Cymraeg fel rhan o'u dysgu gweithredol.

7.3 *Mathau gwahanol o ddysgu cyfeiriedig*

7.3.1 Mae'r Coleg yn cydnabod bod ystod eang iawn o ddulliau dysgu ac addysgu gwahanol yn cael eu defnyddio ar draws y gwahanol bynciau a disgyblaethau. Mae'r gwahanol ddulliau yn ymestyn ymhell tu hwnt i'r darlithoedd a seminarau traddodiadol, a gallant gynnwys sesiynau ymarferol mewn labordy, sesiynau ymarferol ar gyfrifiadur, gwaith ymarferol mewn stiwdio, ymarferion perfformio, gwaith maes, dysgu ar leoliad, sesiynau dysgu clinigol efelychiadol (*simulated clinical learning*), ayyb.

7.3.2 Y prif fesur ar gyfer penderfynu pa gyfran o'r dulliau dysgu hyn y gellir eu cofnodi fel rhai cyfrwng Cymraeg yw iaith y darlithydd / tiwtor / cydlynnydd / goruchwyliwr /

arddangoswr, ayyb, wrth roi cyfarwyddyd ac wrth gyfathrebu gyda'r myfyrwyr yn ystod sesiwn dysgu.

7.3.3 Mewn rhai amgylchiadau gellir cyfrifo'r rhain fel sesiynau 100% cyfrwng Cymraeg, tra mewn amgylchiadau eraill bydd y profiad dysgu cyfrwng Cymraeg ar lefel is ac yn cael ei ddarparu i grŵp penodol o fyfyrwyr oddi fewn i amgylchedd dysgu ehangach sy'n cael ei ddarparu i'r grŵp cyfan drwy gyfrwng y Saesneg.

7.3.4 Mater i'r cydlynnydd modiwl yw dod i gasgliad rhesymol wrth gyfrifo gwerth canrannol modiwl pa iaith y bwriedir ei defnyddio yn ystod y gwahanol sesiynau a moddion dysgu gwahanol, a chofnodi hynny'n glir yn y disgrifydd modiwl. Fel a nodwyd eisoes, bydd rhaid cadw cofnod o sut y daethpwyd i'r ganran o ddysgu cyfrwng Cymraeg, a bod yn barod i'w amddiffyn.

7.3.5 Ar gyfer mathau penodol o ddysgu (e.e. dysgu ar leoliad ar gyfer myfyrwyr Nyrsio neu Bydwreigiaeth), dylid disgrifio **isafswm** y ddarpariaeth a/neu'r profiad fydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, er mwyn i'r modiwlau dysgu ar leoliad hyn gael eu labelu fel rhai cyfrwng Cymraeg, dylid sicrhau bod gan y myfyrwyr:

- i. Goruchwyliwr Ymarfer (*Practice Supervisor*) sy'n siarad Cymraeg
- ii. Asesydd Ymarfer (*Practice Assessor*) sy'n siarad Cymraeg
- iii. Asesydd Academaidd (*Academic Assessor*) sy'n siarad Cymraeg

7.3.6 Nid yw gosod myfyriwr ar leoliad mewn ardal lle mae canran uchel neu uwch na'r cyfartaledd o siaradwyr Cymraeg yn y gymuned (ac felly bod tebygolrwydd uwch y bydd y myfyriwr yn dod ar draws siaradwyr Cymraeg eraill ar y staff neu o blith y cleifion / defnyddwyr gwasanaeth) yn ddigon ynddo'i hun i labelu profiad fel un 'cyfrwng Cymraeg'.

7.3.7 Fodd bynnag, mae'r Coleg yn cydnabod bod cyfrifo'r cydran cyfrwng Cymraeg o fewn y profiadau dysgu amrywiol hyn yn gymhleth, ac na fydd y Canllaw hwn bob tro yn darparu ateb parod ar gyfer pob sefyllfa ac enghraifft. Byddwn felly yn hapus i drafod enghreifftiau penodol gyda chydlynwyr modiwlau ac i ddarparu cyngor lle

bynnag y bo angen. Bydd y Canllaw hwn hefyd yn cael ei ddiweddarau yn gyson er mwyn adlewyrchu methodolegau a dulliau dysgu ac addysgu newydd.

8. Diffinio darpariaeth 'ddwyieithog'

Ymdrinnir yn y rhan hwn o'r Canllaw â beth yw 'dysgu dwyieithog'. Mae'r cyngor sy'n dilyn yn esbonio sut i gyfrifo'n briodol gwahanol lefelau o ddysgu dwyieithog, gan gynnwys dysgu lle mae'r profiad cyfrwng Cymraeg mewn gwirionedd yn fach iawn.

8.1 *Beth yw 'dysgu dwyieithog'?*

- 8.1.1 Mae dysgu dwyieithog yn gallu golygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau. Mewn ffordd, mae pob myfyriwr sy'n astudio elfen o'u cynllun gradd trwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag bo'r pwnc, bron yn ddieithriad yn mynd i gael profiad dwyieithog wrth ddysgu. Mae hyn yn wir p'un a ydyw eu cwrs yn cynnwys llawer iawn o Gymraeg neu ychydig o Gymraeg. Bydd gan y myfyrwyr hyn fynediad at bob math o ddeunyddiau darllen ac adnoddau dysgu mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg.
- 8.1.2 Oherwydd hynny, mae'r Canllaw hwn yn annog sefydliadau i ddiffinio pob modiwl lle mae un elfen neu ragor o'r ddarpariaeth a addysgir i'r myfyrwyr yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hynny'n cynnwys modiwlau lle mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio i gyflwyno'r addysgu – e.e. lle mae'r darlithoedd yn Saesneg, a'r seminarau yn y Gymraeg. Mae modiwlau fel hyn yn ddwyieithog yn yr ystyr bod y ddwy iaith yn cael eu defnyddio, er taw un iaith ar y tro a ddefnyddir oddi fewn i'r ystafell ddosbarth. Ond fel mae'r Canllaw hwn yn egluro, mae modd cyfrifo a rhoi canran penodol i faint o'r profiad dysgu a ddarperir i fyfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw fodiwl. Felly hyd yn oed mewn modiwlau sy'n cynnwys defnydd o'r ddwy iaith – fel modiwlau gyda darlithoedd Saesneg a seminarau

Cymraeg – mae'n deg ac yn briodol i ddisgrifio'r modiwlau hynny fel rhai sydd ag elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg ynddynt.

- 8.1.3 Lle mae 'dwyieithog' yn mynd yn fater mwy cymhleth yw pan y defnyddir dwy iaith ar yr un pryd oddi fewn i'r un amgylchedd dysgu. Ceir gwahanol fodelau o addysgu dwyieithog: er enghraifft, dosbarthiadau iaith-gymysg sy'n cael eu dysgu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, ond gyda rhai deunyddiau dwyieithog yn cael eu darparu i'r dosbarth cyfan (e.e. sleidiau darlith dwyieithog gyda'r Gymraeg a'r Saesneg ochr wrth ochr, nodiadau darlith dwyieithog, llyfryn modiwl dwyieithog, ayyb); neu ddosbarth iaith-gymysg lle mae'r darlithydd yn weithredol yn defnyddio'r ddwy iaith wrth annerch y ddau grŵp o fyfyrwyr Cymraeg a di-Gymraeg (neu'n defnyddio cyfieithu-ar-y-pryd fel bod y ddau grŵp yn derbyn y ddarlith yn iaith eu dewis).
- 8.1.4 Ystyrir y math cyntaf o brofiad dysgu dwyieithog o fewn dosbarth iaith-gymysg yn 'oddefol' a cheir disgrifiad llawnach ohono yn adran 8.2.
- 8.1.5 Mae'r ail fath o brofiad dysgu dwyieithog yn cynnig profiad gweithredol drwy gyfrwng y Gymraeg **i rai** o'r myfyrwyr oddi fewn i'r dosbarth ehangach. Er mwyn i'r math hyn o addysgu dwyieithog fod yn effeithiol, ac i sicrhau profiad dysgu cyfartal a chydadd i'r ddau grŵp iaith, mae angen bod y darlithwyr wedi'u hyfforddi i lefel uchel iawn fel eu bod yn hyddysg mewn pedagogeg a thechnegau addysgu dwyieithog a'u bod yn cynllunio profiadau dysgu'r ddau grŵp iaith yn ofalus ac yn fwriadus. Dengys ymchwil fod risg cyson o ogwydd tuag at un iaith mewn dosbarth iaith-gymysg, gan arwain at brofiad dysgu o ansawdd is i un grŵp iaith, oni bai bod strwythurau a strategaethau arfer gorau yn eu lle ac y cedwir yn dynn atynt.
- 8.1.6 Dylid osgoi cynnal dosbarthiadau iaith-gymysg lle bo modd, oni bai fod rhesymau pedagogaid cryf i wneud hynny (e.e. fel dull o godi hyder myfyrwyr na fyddai'n mentro astudio unrhyw elfen o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg fel arall). Yn

sicr, ni ddylid defnyddio dosbarthiadau iaith-gymysg fel dull o dorri costau cynnal darpariaeth drwy gyfuno grwpiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Os oes rhaid cynnal dosbarthiadau iaith-gymysg, dylid gofalu bod gan y myfyrwyr hynny'n sy'n cael eu hannerch a'u haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg y deunyddiau dysgu ategol yn Gymraeg fel bod y dysgu hunan-gyfeiriedig yn gallu digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg, a'u bod yn cael eu hannog i gwblhau eu hasesiadau yn Gymraeg.

8.2 *Profiadau dysgu 'gweithredol' neu 'oddefol' drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog*

8.2.1 Dylid gwahaniaethu rhwng profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i fyfyrwyr yn 'weithredol' (*active*) neu'n 'oddefol' (*passive*).

8.2.2 Er mwyn dysgu'n 'weithredol' drwy gyfrwng y Gymraeg, mae gofyn bod myfyrwyr yn gweld, clywed, ac yn siarad Cymraeg o fewn modiwl. Felly, mewn darlith neu seminar **cyfrwng Cymraeg**, disgwylir bod y deunydd gweledol i gyd, e.e. sleidiau, nodiadau darlith, ayyb, yn y Gymraeg (neu'n ddwyieithog), bod y ddarlith yn cael ei thraddodi yn y Gymraeg, a bod unrhyw drafodaeth o fewn y dosbarth yn digwydd yn y Gymraeg. Mewn sefyllfa fel hyn mae'r myfyrwyr yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn **weithredol** â'r Gymraeg.

8.2.3 Fodd bynnag, gall myfyrwyr hefyd gael profiad dysgu 'goddefol' o'r Gymraeg. Fel arfer, Saesneg fydd prif gyfrwng y dysgu – o ran yr iaith a ddefnyddia'r darlithydd wrth draddodi a siarad â'r myfyrwyr. Ond os oes elfen o ddwyieithrwydd yn yr amgylchedd dysgu o fewn y dosbarth, e.e. sleidiau darlith dwyieithog, nodiadau darlith, neu hyd yn oed elfen o glywed y Gymraeg yn cael ei siarad (e.e. y darlithydd yn cyfarch y dosbarth gyda 'Bore Da', defnydd achlysurol o ymadroddion a thermau Cymraeg wrth draddodi, dangos clip fideo lle siaredir

Cymraeg gydag is-deitlau yn Saesneg, ayyb), gellir disgrifio hyn fel profiad dysgu dwyieithog **goddefol**.

- 8.2.4 Mae'r Coleg yn cydnabod gwerth profiadau dysgu dwyieithog goddefol. Yn y man lleiaf, gellir defnyddio'r profiadau goddefol hyn fel ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, o fagu hyder rheiny sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg, a gall hyd yn oed danio diddordeb ac annog rhai myfyrwyr i fynd ati i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg. Un o flaenoriaethau Cynllun Academaidd Addysg Uwch 2022 y Coleg yw ehangu'r cynulleidfaoedd myfyrwyr sy'n astudio drwy'r Gymraeg, felly anogir pob sefydliad i gyflwyno elfennau dwyieithog i'w modiwlau a'u cynlluniau gradd – yn enwedig mewn pynciau a meysydd lle mae angen datblygu gweithluoedd dwyieithog, e.e. iechyd a gofal, gwasanaethau cyhoeddus, addysg gychwynnol athrawon, ac astudiaethau addysg a phlentyndod.
- 8.2.5 Lle mae'r profiad dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr yn cynnig profiad cyfrwng Cymraeg **gweithredol**, dylid cyfrifo hynny fel cydran cyfrwng Cymraeg cydnabyddedig o fewn strwythur y modiwl. Dylid ei gyfrifo mewn dull tebyg i'r un sy'n cael ei argymhell yn y Canllaw hwn gyda disgrifydd yn dangos yn glir fod y modiwl yn cynnwys cydran(nau) o ddysgu cyfrwng Cymraeg cydnabyddedig.
- 8.2.6 Fodd bynnag, dylid hefyd gydnabod a chofnodi unrhyw elfennau dysgu sy'n cynnig profiad dwyieithog **goddefol** i fyfyrwyr o fewn darpariaeth. Gan ddefnyddio disgrifydd modiwl dylid dangos yn glir fod modiwl yn cynnwys elfen lefel isel o ddwyieithrwydd, a gall hwn wedyn roi gwerth canrannol i'r modiwl. Drwy hyn fydd modd cynnwys unrhyw fyfyrwyr sydd wedi profi'r dysgu dwyieithog goddefol hyn – yn siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg – yn y data sy'n cael ei adrodd i HESA.

8.3 *Sut mae cyfrifo ac adrodd dysgu dwyieithog goddefol?*

8.3.1 Lle nad yw'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg yn weithredol a lle nad oes modd cyfrifo'r profiad fel cydran o'r addysgu strwythuredig oddi fewn i fodiwl, fel a amlinellir uchod, gellir dilyn y drefn sy'n dilyn.

8.3.2 Ar gyfer modiwlau heb unrhyw gydrannau addysgu strwythuredig cyfrwng Cymraeg, gellir cyfrifo hyd at uchafswm o 10% o'r modiwl fel profiad dwyieithog os ydy'r:

- i. **holl** ddeunyddiau dysgu sylfaenol ar gael i'r myfyrwyr yn y ddwy iaith⁴, e.e.
 - o sleidiau darlith
 - o nodiadau darlith
 - o taflenni gwaith, ayyb)

a/neu

- ii. bod y **dysgu yn y dosbarth** yn cynnwys elfen o ddefnyddio geirfa ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol ar lafar.

8.3.3 Gellir cyfrifo hyd at 10% o werth credydol modiwl fel dwyieithog o dan yr amgylchiadau hyn. O ganlyniad, bydd 1 credyd o fodiwl 10 credyd yn gallu cael ei gyfrifo fel profiad dwyieithog, 2 gredyd o fodiwl 20 credyd, ayyb. (gw. enghraifft A12 isod).

⁴ Dylid sicrhau bod y deunyddiau ar gael yn llwyr ac yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith unai gyda'i gilydd neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, ac ar yr un pryd (h.y. yn hytrach na bod y fersiwn Cymraeg yn ymddangos yn hwyrach neu ar ofyn yn unig). Wrth gwrs, gall hyn arwain at alw mawr am gefnogaeth unedau cyfieithu a rhoi baich ychwanegol ar y capasiti sydd gan sefydliadau i gynhyrchu adnoddau dwyieithog. O'r herwydd, dylid blaenoriaethu ymdrechion i gynhyrchu deunyddiau dysgu i ffafrio modiwlau sy'n cynnig profiad dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr, a datblygu rhaglen mwy hir-dymor i dargedu modiwlau i'w darparu yn oddefol yn ddwyieithog.

- 8.3.4 Drwy'r dull hwn, gellir cydnabod unrhyw brofiadau dwyieithog goddefol sy'n perthyn i fodiwl, lle nad oes elfen o'r addysgu sy'n cael ei draddodi a'i dderbyn yn gydnabyddedig cyfrwng Cymraeg. Wrth gynllunio modiwl, bydd cydlynwyr y modiwl yn cynnwys y profiadau dwyieithog goddefol yn y disgrifydd modiwl fel bod y Swyddfa Academaidd yn ymwybodol o'r ddarpariaeth ac wedi ei gofnodi fel gwerth canrannol o 10% o'r modiwl. Oherwydd mai 10% o'r modiwl fydd yr uchafswm y bydd modd ei gofnodi fel profiad dysgu dwyieithog, bydd uchafswm y credydau a gofnodir yn cael ei gapio, er mwyn adlewyrchu'r ffaith mai profiad dysgu dwyieithog goddefol ydyw, nid dysgu cyfrwng Cymraeg gweithredol.
- 8.3.5 Bydd pob myfyriwr sydd wedi dilyn modiwl gyda phrofiad dysgu dwyieithog goddefol yn cael eu cynnwys yn y data fydd sefydliadau yn eu hadrodd i HESA – p'un a ydynt yn siarad Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg (h.y. ni fydd y data yn cael ei hidlo ar sail gallu ieithyddol myfyrwyr – bydd pawb ar y modiwl yn ddi-wahân wedi cwblhau'r isafswm credydau ar gyfer y Dysgu Dwyieithog sydd ar gael. Mae hyn yn gyson gyda'r nod o gyflwyno amgylchedd dysgu dwyieithog i bawb, nid yn unig y siaradwyr Cymraeg, ac yn ffordd o gynyddu eu hymwybyddiaeth o fyw a gweithio mewn cymuned ddwyieithog. Anogir sefydliadau i hyrwyddo gwerth a manteision modiwlau sy'n cynnwys profiadau dysgu dwyieithog, ac i fod yn glir am yr elfen ddwyieithog yn y deunydd marchnata.
- 8.3.6 Oherwydd mai 10% o fodiwl yw'r uchafswm y bydd modd i fyfyriwr di-Gymraeg fod wedi ei astudio yn ddwyieithog, bydd hyn yn capio'r profiad y bydd modd ei adrodd i 1 credyd mewn modiwl 10 credyd. Pe byddai pob modiwl ar y cynllun gradd yn cynnwys profiadau dysgu dwyieithog, byddai hyn yn cyfateb i ddim mwy na 12 credyd mewn blwyddyn gyfan (allan o 120 credyd) neu 36 credyd dros 3 blynedd (allan o 360 credyd). Felly tra bydd y dysgwyr

dwyieithog goddefol hyn yn cyfrannu at dargedau sefydliadau ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cap yn sicrhau nad ydynt yn cyfrannu at or-adrodd yn y data. Bydd hyn hefyd yn caniatáu gwahaniaethu mwy effeithiol yn y data rhwng y dysgwyr dwyieithog 'goddefol' a'r dysgwyr cyfrwng Cymraeg 'gweithredol'. (Bydd myfyrwyr sydd wedi astudio hyd at 12 credyd mewn blwyddyn ar y cyfan wedi cael profiad goddefol o'r Gymraeg, tra bydd myfyrwyr sydd wedi astudio mwy na hynny wedi cwblhau o leiaf rhan o'u cynllun astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.)

Atodiad A – enghreifftiau darluniadol

Mae'r enghreifftiau sy'n dilyn yn dangos sut y dylid defnyddio'r model cyfrifo a amlinellir yn y Canllaw hwn er mwyn dod i farn rhesymol a chyson ar ba ganran o fodiwl addysg uwch sydd yn gyfrwng Cymraeg.

Ceir rhestr hefyd yn [Atodiad B](#) o wahanol fathau o brofiadau dysgu oddi fewn i fodiwlau. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys isafswm disgwyliadau ar gyfer gallu ystyried yn rhesymol fod y profiad dysgu yn 'gyfrwng Cymraeg' neu'n ddwyieithog.

A. Pennu gwerth credyd cyfrwng Cymraeg modiwl

Mae'r enghreifftiau isod i gyd yn canolbwyntio ar sut mae cyfrifo'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, oni lle nodir yn wahanol. (Ceir rhai enghreifftiau sy'n esbonio'r gwahaniaeth rhwng profiad dysgu myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg a myfyrwyr di-Gymraeg sy'n dilyn yr un modiwl.)

Mae pob enghraifft yn cynnwys pa **ganran** o'r modiwl cyfan sydd *ar gael* yn y Gymraeg (h.y. y ganran i'w ddefnyddio mewn disgrifiydd modiwl, wrth farchnata a hyrwyddo i fyfyrwyr, ac wrth amcangyfrif niferoedd fydd wedi astudio trwy gyfrwng y Gymraeg pe byddai pawb wedi dilyn pob cydran sydd ar gael yn Gymraeg); a'r **cyfanswm** credydau fydd myfyriwr unigol wedi ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd yn yr enghraifft (h.y. faint o gredydau a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg sydd i'w hadrodd ar gyfer myfyriwr unigol mewn cofnod HESA. Gall hyn fod yn wahanol i'r nifer credydau sydd *ar gael*, gan ddibynnu ar ba gydrannau o'r profiad dysgu mae'r myfyriwr wedi'u profi yn y Gymraeg.)

Enghraifft A1:

Modiwl 10 credyd gyda'r darlithoedd yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg (10 darlith x 1 awr) a'r seminarau yn y Gymraeg (10 seminar x 1 awr). Cwblheir pob asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg (traethawd ac arholiad), a darperir pecyn dysgu hunan-gyfeiriedig yn y Gymraeg i'r myfyrwyr.

Yn ôl y fframwaith uchod, byddai 100% o'r modiwl hwn ar gael yn y Gymraeg. Byddai hyn yn cyfateb i 10 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg pe bai myfyriwr yn profi pob cydran o'r profiad sydd ar gael yn Gymraeg.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	10 / 10	(100%)	(@ 0.2)	(= 20% o 10cr)	(= 2cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	20 / 20			= 80%	= 8
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					10

Enghraifft A2:

Modiwl 10 credyd gyda'r darlithoedd yn cael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg (10 darlith x 1 awr) ond bod grŵp seminar ar wahân ar gyfer y siaradwyr Cymraeg sy'n cael ei gynnal yn y Gymraeg (10 seminar x 1 awr). Bydd y myfyrwyr sydd yn y grŵp seminar cyfrwng Cymraeg fel arfer yn cwblhau pob asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg (cyflwyniad llafar a thraethawd), a darperir rhestr ddarllen sy'n cynnwys rhai testunau Cymraeg (a'r gweddill yn Saesneg) a chyfres o fideos dwyieithog fel adnodd dysgu ategol i'r myfyrwyr.

Yn ôl y fframwaith uchod, gellid yn rhesymol gyfrifo fod uchafswm o 80% o'r modiwl hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hynny'n cyfateb i 8 credyd pe cwblheid pob elfen ohono yn Gymraeg.

A2a (Fel disgrifiad A2 uchod, gyda'r asesiadau yn cael eu cwblhau yn y Gymraeg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 20			= 60%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					8

Fodd bynnag, pe byddai myfyriwr yn dewis cyflwyno'r asesiadau i gyd trwy gyfrwng y Saesneg, dylid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw wrth adrodd i HESA fel yn yr enghraifft sy'n dilyn – i ddangos mai 7 credyd a gwblhawyd yn y Gymraeg (sef 70% o werth canrannol y modiwl er bod uchafswm o 80% ar gael yn y Gymraeg).

A2b (fel disgrifiad A2, ond yr oriau cyswllt ar gyfer darlithoedd a seminarau yn amrywio).

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	= (0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	5 / 5	(100%)	(@ 0.6)	= (60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	5 / 15			= 60%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					8

Pe byddai'r myfyriwr wedi gwneud un o'r asesiadau yn y Gymraeg (e.e. cyflwyniad llafar yn y Gymraeg, ond cyflwyno traethawd yn Saesneg), byddai hyn wedi cyfrif fel cwblhau **rhai** asesiadau yn y Gymraeg, a byddai'n briodol cofnodi'r myfyriwr o hyd fel un sydd wedi cael ei asesu yn Gymraeg. Felly bydd y myfyriwr yma hefyd wedi cwblhau cyfanswm o 8 credyd.

A2c (fel disgrifiad A2, ond yr holl asesiadau wedi eu cwblhau yn y Saesneg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 20			= 60%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☐		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					7

Pe bai'r myfyriwr wedi cwblhau un o'r asesiadau yn Gymraeg (e.e. wedi cyflwyno ar lafar yn Gymraeg, ond wedi cyflwyno'r traethawd yn Saesneg), byddai modd cyfrifo fod **rhai** asesiadau wedi eu cwblhau yn Gymraeg, a gellid dychwelyd y myfyriwr yn briodol fel un sydd wedi'i asesu yn Gymraeg. Felly, byddai'r myfyriwr hwn hefyd wedi cwblhau cyfanswm o 8 credyd yn y Gymraeg.

A2d (Fel disgrifiad A2, ond un asesiad wedi'i gwblhau yn Gymraeg a'r ail yn Saesneg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					

Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 20			= 60%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒	++	@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					8

Enghraifft A3

Modiwl 20 credyd a addysgir yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg ond darperir tiwtorialau unigol yn y Gymraeg i'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg – 20 darlith (Saesneg), 10 seminar awr o hyd (Saesneg), 10 tiwtorial unigol (Cymraeg) rhwng 30 a 90 munud.

Yn ôl y model a amlinellwyd uchod, byddai uchafswm o 50% o'r modiwl hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg (neu gyfanswm o 10 credyd o'r 20 credyd sydd ar gael), pe bai'r asesiadau (i gyd neu'n rhannol) yn cael eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg.

A3a (Fel y disgrifiad, gyda'r asesiadau yn cael eu cwblhau yn y Gymraeg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 20	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Seminarau	0 / 10	(0%)	(@ 0.3)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Tiwtorialau	10 / 10	(100%)	(@ 0.3)	(= 30% o 20cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 40			= 30%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					50%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					10

Fodd bynnag, pe cwblhawyd yr asesiadau i gyd trwy gyfrwng y Saesneg, 8 credyd fydd myfyriwr wedi eu cwblhau yn y Gymraeg, fel yn yr enghraifft sy'n dilyn (gan taw 40% o'r profiad dysgu sydd wedi ei brofi yn Gymraeg, er bod uchafswm o 50% ar gael yn y Gymraeg):

A3b (Fel disgrifiad A3, ond pob un o'r asesiadau wedi eu cyflwyno yn Saesneg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 20	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Seminarau	0 / 10	(0%)	(@ 0.3)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)

Tiwtorialau	10 / 10	(100%)	(@ 0.3)	(= 30% o 20cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	10 / 40			= 30%	= 6
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					50%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					8

Yn y modiwl yn yr enghraifft benodol hon, gall dysgwyr â gwahanol sgiliau iaith fod yn astudio yr un modiwl. Byddant yn mynd i'r un darlithoedd a seminarau (cyfrwng Saesneg) gyda'i gilydd. Fodd bynnag, caiff sleidiau dwyieithog eu defnyddio yn y darlithoedd i gyd ac mae rhywfaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y dosbarthiadau seminarau gyda'r myfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, er taw Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu. Nid yw'r elfen addysgu strwythuredig (oriau cyswllt) yn cynnig profiad cyfrwng Cymraeg i'r dysgwyr (heblaw profiad goddefol o'r Gymraeg gan fod yr amgylchedd dysgu yn ddwyieithog). Ond mae cydlynnydd y modiwl yn darparu profiad dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg i'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith drwy'r tiwtorialau unigol yn yr enghraifft yma.

Dim ond y myfyrwyr Cymraeg eu hiaith fydd wedi gallu dilyn 8 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg (neu 10 credyd, os byddant wedi cyflwyno eu hasesiadau yn y Gymraeg), ac nid y myfyrwyr di-Gymraeg. Fodd bynnag, yn unol â'r model uchod ar gyfer cyfrifo ac adrodd profiadau dysgu dwyieithog, gellir yn rhesymol adrodd bod y myfyrwyr di-Gymraeg (ac unrhyw fyfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg, ond sydd wedi dewis peidio â mynychu'r tiwtorialau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael) wedi cael profiad dysgu dwyieithog goddefol.

Ar gyfer y myfyrwyr hynny sydd wedi cael profiad dysgu dwyieithog goddefol, gellid cyfrifo'r credydau fel a ganlyn:

A3c (Fel disgrifiad A3, ond myfyrwyr wedi profi'r dysgu dwyieithog goddefol yn unig)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 20	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Seminarau	0 / 10	(0%)	(@ 0.3)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Tiwtorialau	0 / 10	(0%)	(@ 0.3)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	0 / 40			= 0%	= 0
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
NEU:					
Ch. Dysgu dwyieithog	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Uchafswm canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					50%
Isafswm canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					10%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					2

Felly gellir adrodd bod y myfyrwyr di-Gymraeg (ac unrhyw fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith sydd heb ymgymryd â'r cydrannau dysgu gweithredol yn Gymraeg) wedi cwblhau'r isafswm o'r modiwl sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, sef 2 gredyd, oherwydd bod yr amgylchedd dysgu wedi rhoi profiad goddefol iddynt o'r Gymraeg. (Gw. hefyd enghraifft A12 isod).

Enghraifft A4

Modiwl 20 credyd gyda darlithoedd cyfrwng Saesneg (20 darlith x 1 awr Saesneg), ac 20 sesiwn labordy lle mae'r myfyrwyr wedi'u rhoi mewn grwpiau Cymraeg neu Saesneg a lle mae tiwtor neu arddangoswr Cymraeg yn gweithio gyda'r grŵp Cymraeg ei iaith.

Yn ôl y model a amlinellwyd uchod, byddai'n rhesymol cyfrifo bod uchafswm o 80% o brofiadau dysgu y modiwl hwn ar gael yn y Gymraeg. Pe byddai myfyriwr unigol yn manteisio ar bob cydran o'r dysgu sydd ar gael yn Gymraeg – gan gynnwys cwblhau o leiaf un o'u hasesiadau yn y Gymraeg – byddai'n cwblhau 16 credyd o'r modiwl 20 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

A4a (Fel y disgrifiad, gyda'r asesiadau yn cael eu cwblhau yn y Gymraeg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 20	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Sesiynau labordy	20 / 20	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 20cr)	(= 12cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	20 / 40			= 60%	= 12
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%

Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg**16**

Pe byddai myfyriwr yn cyflwyno ei holl asesiadau yn y Saesneg, bydd wedi cwblhau 70% o'r profiad dysgu cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, a gellid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw i ddangos mai 14 credyd a gwblhawyd yn Gymraeg.

Fel yn enghraifft A3 uchod, gall fod myfyrwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn cael eu dysgu gyda'i gilydd ar yr un modiwl yn enghraifft A4. Yn yr enghraifft yma, fodd bynnag, yn hytrach na bod tiwtorialau cyfrwng Cymraeg ar wahân yn cael eu darparu i'r myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg, mae'r myfyrwyr yn cael eu dysgu gyda'i gilydd mewn un gofod cymysg ei iaith. Mae'r darlithoedd i gyd yn cael eu darparu yn Saesneg, ond mae sesiynau labordy hefyd yn cael eu darparu lle mae'r myfyrwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn cael eu dysgu gyda'i gilydd. Er mwyn sicrhau bod y myfyrwyr Cymraeg yn cael profiad dysgu cyfrwng Cymraeg ystyrlon (ac er mwyn gallu cofnodi hyn fel cydran dysgu cyfrwng Cymraeg strwythuredig mewn disgrifydd modiwl) rhaid sicrhau bod y myfyrwyr Cymraeg yn cael eu grwpio gyda'i gilydd o fewn y modiwl ac wrth eu haddysgu a'u bod nhw'n cael eu cefnogi gan diwtor neu arddangoswr drwy gyfrwng y Gymraeg. (Gellid ymestyn yr enghraifft yma i sefyllfaoedd eraill lle defnyddir dwy iaith wrth addysgu mewn gofod cymysg ei iaith, e.e. sesiynau ymarferol, gwaith maes, ayyb).

O ran y myfyrwyr di-Gymraeg sy'n dilyn yr un modiwl, ni ddylid rhoi'r un ganran o brofiad dysgu Cymraeg iddyn nhw wrth adrodd i HESA, er eu bod wedi bod yn yr un sesiynau labordy â'r myfyrwyr Cymraeg eu hiaith. Dim ond profiad dwyieithog goddefol y bydd y myfyrwyr di-Gymraeg wedi gallu ei gael, ac felly 10% o'r modiwl ar y mwyaf (neu 2 credyd) y bydd modd ei adrodd ar eu cyfer hwy. Er mwyn adrodd hynny'n briodol, rhaid i'r amgylchedd dysgu hefyd gyrraedd yr isafswm profiad gwaelodol angenrheidiol cyn bod modd disgrifio hwnnw fel profiad dwyieithog a'i adrodd yn nata HESA, h.y. bod yr holl

ddeunyddiau dysgu sylfaenol (sef sleidiau'r darlithoedd, nodiadau darlith, taflenni gwaith, ayyb) yn gyfan gwbl ddwyieithog.

A4b (Fel y disgrifiad, ond profiad dysgu 'goddefol' dwyieithog i'r myfyrwyr di-Gymraeg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 20	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Sesiynau labordy	0 / 20	(0%)	(@ 0.6)	(= 0% o 20cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	0 / 40			= 0%	= 0
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
NEU:					
Ch. Dysgu dwyieithog	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					10%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					2

Pe na ddarperid unrhyw brofiadau dwyieithog oddi fewn i'r amgylchedd dysgu i'r myfyrwyr di-Gymraeg, byddai'r myfyrwyr hynny wedi profi 0% o'r Gymraeg (a felly dylid adrodd i HESA iddynt gael 0 credyd cyfrwng Cymraeg).

Enghraifft A5:

Modiwl 20 credyd mewn pwnc lechyd gyda'r darlithoedd yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg (10 darlith x 2 awr) a seminarau cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal ar gyfer grwpiau bach (10 seminar x 1 awr). Bydd myfyrwyr hefyd yn treulio 10 diwrnod ar leoliad ac mae'r myfyrwyr yn cwblhau traethawd yn myfyrio ar eu profiadau ar leoliad. Bydd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu gosod gydag Addysgwyr Ymarfer sy'n siarad Cymraeg.

Bydd rhai modiwlau (e.e. ym maes ieuchyd) yn cynnwys profiadau ar leoliad ac rydym yn cydnabod y bydd profiad pob myfyriwr unigol yn amrywio o ganlyniad i elfennau megis lleoliad daearyddol a'r lefel o ymgysylltu gyda staff a chleifion o wahanol gefndiroedd ieithyddol.

Fodd bynnag, dylai myfyrwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg gael mynediad at ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer unrhyw gydrannau sy'n cael eu haddysgu yn y, neu gan staff o'r, sefydliad addysg uwch, a chael mynediad at Aseswyr Academaidd sy'n medru'r Gymraeg. Bydd darparu mynediad at Aseswyr Academaidd yn Gymraeg yn hanfodol o ran yr hyn sy'n ddisgwyliedig mewn modiwl a ddiffinnir yn gyfrwng Cymraeg.

Dylid hefyd sicrhau, lle bo modd, bod y Goruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer yn ystod y cyfnod ar leoliad (e.e. ar gyfer myfyrwyr Nyrsio yn unol â'r diffiniad a nodir yng nghanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, neu rolau cyfatebol o fewn proffesiynau eraill) sy'n cefnogi'r myfyrwyr sydd wedi dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn siarad Cymraeg.

A5 (gydag o leiaf un asesiad yn cael ei gwblhau yn y Gymraeg)

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
-----------	-----------------	---------------	-----------	----------------------	----------

A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	20 / 20	(100%)	(@ 0.2)	(= 20% o 20cr)	(= 4cr)
Seminarau grŵp bach	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 20cr)	(= 12cr)
Lleoliad Clinigol (gyda goruchwyliwr ymarfer sy'n siarad Cymraeg)	(Dim credydau ynghlwm fodd bynnag rhaid cwblhau'r lleoliad i basio'r modiwl)				
Cyfanswm oriau cyswllt	30 / 30			= 80%	= 16
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 2
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					20

Pe bai'r darlithoedd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Saesneg, a'r seminarau yn unig fyddai'n cael eu darparu yn y Gymraeg – ond bod Goruchwyliwr Ymarfer Cymraeg eu hiaith gan y myfyriwr i gefnogi eu cyfnod ar leoliad – uchafswm o 80% o brofiad dysgu y modiwl hwn fyddai ar gael yn y Gymraeg (a'r myfyriwr wedi cwblhau 18 credyd yn Gymraeg os bydd wedi cyflwyno o leiaf un darn o waith i'w asesu yn Gymraeg, neu 16 credyd os bydd wedi cyflwyno ei waith i gyd yn Saesneg).

Enghraifft A6:

Modiwl 30 credyd ar gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR), sy'n cael ei addysgu drwy gyfuniad o ddarlithoedd cyfrwng Saesneg (9 darlith, dwyawr yr un), a seminarau a gweithdai cyfrwng Cymraeg (9 seminar neu weithdy, dwyawr yr un) i'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Cwblheir pob asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg fel arfer gan fyfyrwyr sy'n dilyn y seminarau a gweithdai Cymraeg, sef prosiect ymchwiliol (60%) a dyddlyfr proffesiynol myfyriol (40%), a darperir rhestr ddarllen ac adnoddau sy'n cynnwys rhai testunau Cymraeg (a'r gweddill yn Saesneg).

Yn ôl y model uchod, gellid yn rhesymol gyfrifo fod uchafswm o 80% o'r modiwl hwn ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a bod hynny'n cyfateb i 24 credyd.

A6a O leiaf un asesiad yn y Gymraeg

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 18	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 30cr)	(= 0cr)
Seminarau a gweithdai	18 / 18	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 30cr)	(= 18cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	18 / 36			= 60%	= 18
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 3
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 3
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					24

Pe byddai'r myfyriwr wedi cwblhau'r dyddlyfr proffesiynol myfyriol yn y Gymraeg, ond wedi cyflwyno'r prosiect ymchwiliol yn Saesneg, byddai hynny'n dal i gyfateb i 24 credyd gan ei fod wedi cyflwyno o leiaf rhan o'i waith i'w asesu yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, pe byddai myfyriwr yn dewis cyflwyno'r holl asesiadau trwy gyfrwng y Saesneg, dylid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw i ddangos mai 21 credyd a gwblhawyd yn y Gymraeg.

A6b Asesiadau yn y Saesneg

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt	0 / 18	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 30cr)	(= 0cr)
Darlithoedd	18 / 18	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 30cr)	(= 18cr)
Seminarau a gweithdai	18 / 36			= 60%	= 18
Cyfanswm oriau cyswllt	☐		@ 0.1	= 0%	= 0
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 3
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					80%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					21

Enghraifft A7:

Modiwl 60 credyd ar gwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) sy'n seiliedig ar elfen Ymarfer Dysgu / Profiad Ysgol. Does dim darlithoedd na seminarau: daw dysgu'r myfyriwr o'r amser a dreulir yn yr ysgol ac mae'r myfyrwyr yn cwblhau portffolio a 3 gweithlyfr ar-lein sy'n rhan o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

Mae hyfforddeion sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn gwneud eu hymarfer dysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Anogir pob athro dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg (p'un a yw ar gwrs sy'n eu paratoi i addysgu yn Gymraeg neu beidio) i ymgymryd ag o leiaf un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Gan fod yr holl ddysgu yn seiliedig ar leoliad, mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog sydd ar gael i fyfyrwyr yn dibynnu'n uniongyrchol ar gyfran yr amser a dreulir ym mhob math o ysgol. Yn yr achosion hyn, mae'n rhesymol i'r Disgrifydd Modiwl gofnodi'r uchafswm cyfrwng Cymraeg wrth rannu'r lleoliad (e.e. 50/50 neu 40/40). Mae hyn yn eithriad i'r patrwm modiwl arferol a addysgir, ond mae'n briodol ar gyfer modiwlau profiad ysgol.

A7a Lleoliadau Ymarfer Dysgu ac Asesiadau yn y Gymraeg

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Lleoliad Ymarfer Dysgu 1	1 / 1	(100%)	(@ 0.4)	(= 40% o 60cr)	(= 24cr)
Lleoliad Ymarfer Dysgu 2	1 / 1	(100%)	(@ 0.4)	(= 40% o 60cr)	(= 24cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	2 / 2			= 80%	= 48
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 6

C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					60

Pe byddai myfyriwr yn gwneud un Lleoliad Ymarfer Dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (a bod y profiad yn un cyfrwng Cymraeg yn bennaf, hynny yw, nid mewn ffrwd cyfrwng Saesneg o fewn ysgol ddwyieithog) a'r Lleoliad Ymarfer Dysgu arall mewn ysgol cyfrwng Saesneg, ac yn cwblhau hanner yr asesiadau yn Gymraeg, dylid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw i ddangos mai 60% o'r modiwl a gwblhawyd yn y Gymraeg (felly 36 credyd).

A7b Un Lleoliad Ymarfer Dysgu ac un Asesiad yn y Gymraeg

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Lleoliad Ymarfer Dysgu 1	1 / 1	(100%)	(@ 0.4)	(= 40% o 60cr)	(= 24cr)
Lleoliad Ymarfer Dysgu 2	0 / 1	(0%)	(@ 0.4)	(=0% o 60cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	1 / 2			= 40%	= 24
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					60%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					36

Pe byddai myfyriwr yn gwneud un Lleoliad Ymarfer Dysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (a bod y profiad yn un cyfrwng Cymraeg yn bennaf, hynny yw, nid mewn ffrwd cyfrwng Saesneg o fewn ysgol ddwyieithog) a'r Lleoliad Ymarfer Dysgu arall mewn ysgol cyfrwng Saesneg, ac yn cyflwyno'r asesiadau trwy gyfrwng y Saesneg, dylid addasu cofnod y myfyriwr unigol hwnnw i ddangos mai 50% o'r modiwl a gwblhawyd yn y Gymraeg (felly 30 credyd).

A7c Un Lleoliad Ymarfer Dysgu ond Asesiadau i gyd yn y Saesneg

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Lleoliad Ymarfer Dysgu 1	1 / 1	(100%)	(@ 0.4)	(= 40% o 60cr)	(= 24cr)
Lleoliad Ymarfer Dysgu 2	0 / 1	(0%)	(@ 0.4)	(=0% o 60cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	1 / 2			= 40%	= 24
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☐		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					50%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					30

Enghraifft A8:

Modiwl 10 credyd gyda 8 darlith cyfrwng Cymraeg wedi cael eu recordio ac ar gael i'r myfyrwyr eu gwyllo ar lwyfan e-ddysgu'r sefydliad. Darperir yn ogystal grŵp seminar

Cymraeg ar gyfer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg (dros 8 wythnos 1 semestr), tra bod grwpiau seminar cyfrwng Saesneg ar gael ar wahân.

Mae hwn yn enghraifft o fodiwl lle mae rhan o'r addysgu strwythuredig cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i'r myfyrwyr yn anghydamserol. Gellid defnyddio'r darlithoedd sydd wedi'u recordio ar gyfer dysgu 'wyneb-i-waered' (*flipped-learning*), lle mae disgwyl i'r myfyrwyr wyllo darlith wedi'i recordio wrth baratoi ar gyfer seminar cydamserol yn hwyrach yn yr wythnos. Dylai'r darlithoedd cyfrwng Cymraeg gyfateb yn llawn i'r darlithoedd cyfrwng Saesneg, a chynnig profiad dysgu cyflawn i'r myfyrwyr, yn hytrach na bod yn grynoded o'r fersiwn Saesneg. Gall y darlithoedd cyfrwng Saesneg cyfatebol hefyd fod ar gael yn anghydamserol, neu mae'n bosib y bydd y darlithoedd hynny'n cael eu cyflwyno mewn person ac wedi cael eu hamserlennu. Byddai dim byd i rwystro'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg rhag gwyllo / mynychu'r darlithoedd cyfrwng Saesneg yn ogystal â gwyllo'r darlithoedd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, dylai cydlynedd y modiwl gymryd camau addas i asesu a gwerthuso defnydd y myfyrwyr o'r darlithoedd anghydamserol cyfrwng Cymraeg. Wedi gwerthuso'r defnydd, pe gwelir nad ydyw'r myfyrwyr yn gwyllo'r darlithoedd cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u recordio, dylid ail-ystyried gwerth a phwrrpas yr adnodd a chynllunio dull mwy addas o ddarparu'r darlithoedd i'r myfyrwyr yn y Gymraeg (er mwyn gallu cyfiawnhau cyfrifo'r cydran hwn o'r dysgu fel cyfrwng Cymraeg yn y disgrifydd modiwl).

Yn yr enghraifft yma, mae'r myfyrwyr wedi dilyn yr 8 darlith anghydamserol yn y Gymraeg, wedi mynychu'r 8 seminar gyda'r grŵp Cymraeg, a chwblhau'r asesiad (traethawd) yn Gymraeg.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					

Darlithoedd	8 / 8	(100%)	(@ 0.2)	(= 20% o 10cr)	(= 2cr)
Seminarau	8 / 8	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	16 / 16			= 80%	= 8
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					10

Enghraifft A9a:

Ar gwrs Meistr wedi ei addysgu, rhoddir dewis i'r myfyrwyr gwblhau eu modiwl traethawd hir 60 credyd yn Rhan 2 trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddai myfyrwyr sy'n dewis ymgymryd â'r traethawd hir yn y Gymraeg yn cael tiwtor Cymraeg ei iaith a fydd yn darparu'r elfen addysgu / mentora o'r modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg; byddai deunyddiau dysgu ychwanegol yn cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg; a byddai'r myfyrwyr yn cyflwyno eu traethodau yn y Gymraeg. Os yw'r deunyddiau dysgu a rennir gan y darlithydd / goruchwyliwr traethawd hir ar gael unai yn Gymraeg neu'n gyflawn ddwyieithog, gellid yn rhesymol gyfrifo fod y modiwl hwn yn cynnig profiad dysgu cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg, h.y. 100% (er bod nifer o ffynonellau a thestunau darllen pellach trwy gyfrwng y Saesneg).

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
-----------	-----------------	---------------	-----------	----------------------	----------

A. Oriau Cyswllt					
Tiwtorialau	5 / 5	(100%)	(@ 0.4)	(= 40% o 60cr)	(= 24cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	5 / 5			= 40%	= 24
B. Traethawd Hir	☒		@ 0.5	= 50%	= 30
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					60

Enghraifft A9b:

Ar gwrs Meistr wedi ei addysgu, bydd myfyriwr yn dewis yn annibynnol i gwblhau ei fodiwl traethawd hir 60 credyd yn Rhan 2 trwy gyfrwng y Gymraeg, er bod y cwrs Meistr yn un cyfan gwbl cyfrwng Saesneg fel arall.

Nid yw'r modiwl hwn yn darparu unrhyw elfen diwtorial na deunyddiau dysgu cyfrwng Cymraeg, a felly nid oes unrhyw ganran o'r addysgu strwythuredig a'r oriau cyswllt yn gyfrwng Cymraeg. Mae'r myfyriwr wedi gweithredu ei hawl i gyflwyno ei draethawd hir yn y Gymraeg, ac mae'n briodol fod y sefydliad yn addasu cofnod y myfyriwr unigol yma wrth adrodd i HESA ei fod wedi cwblhau rhai credydau (dysgu hunan-gyfeiriedig a'r asesiad) trwy gyfrwng y Gymraeg – sef cyfanswm o 36 credyd.

Fodd bynnag, er mwyn gallu adrodd i HESA fod y myfyriwr hwn wedi cwblhau rhai credydau yn Gymraeg, bydd angen bod y modiwl wedi cael ei adnabod o flaen llaw fel un y gallai myfyriwr ddewis cyflwyno gwaith i'w asesu yn y Gymraeg, fel bod iddo werth canrannol cyfrwng Cymraeg posib mewn disgrifydd. Pe na bai hynny wedi ei wneud o

flaen llaw, ni fyddai modd adrodd achos arbennig y myfyriwr dan sylw oherwydd yn swyddogol fod 0% o'r modiwl ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Tiwtorialau	0 / 5	(100%)	(@ 0.4)	(= 0% o 60cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	0 / 5			= 0%	= 0
B. Traethawd Hir	☒		@ 0.5	= 50%	= 30
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 6
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					60%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					36

Enghraifft A10:

Mae modiwl 10 credyd yn fodiwl iaith Gymraeg sy'n cyflwyno myfyrwyr i Gymraeg ar gyfer dechreuwyr. Cyflwynir pob elfen o'r modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, a chwblheir pob asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gellir adrodd y modiwl hwn fel un 100% cyfrwng Cymraeg ar gyfer pob myfyriwr sydd yn dilyn y modiwl, p'un a ydynt wedi eu cofnodi fel myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg neu beidio.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
-----------	-----------------	---------------	-----------	----------------------	----------

A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	10 / 10	(100%)	(@ 0.2)	(= 20% o 10cr)	(= 2cr)
Seminarau	10 / 10	(100%)	(@ 0.6)	(= 60% o 10cr)	(= 6cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	20 / 20			= 80%	= 8
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					10

Enghraifft All:

Mae'r modiwl yn fodiwl cydweithredol 10 credyd rhwng dwy brifysgol ar lenyddiaeth Ffrangeg. Er bod rhai darlithoedd cyflwyniadol yn y Gymraeg drwy gyfrwng fideo anghydamserol, cyflwynir y rhan fwyaf o'r dysgu mewn seminarau yn lleol gan diwtor trwy gyfrwng y Ffrangeg. Cyflwynir y gwaith i'w asesu yn Ffrangeg, ond daw'r sylwadau nôl gan y tiwtor yn y Gymraeg.

Dylid adrodd y modiwl hwn fel un 100% cyfrwng Cymraeg.

Mae gwerth canrannol y modiwl yn seiliedig ar ba ganran ohono a addysgir yn y Gymraeg **o gymharu â'r ganran a addysgir yn y Saesneg**. Er mai mewn nifer fach iawn o enghreifftiau y bydd hyn yn berthnasol, mae'r ganran yn seiliedig ar y cydbwysedd rhwng yr addysgu cyfrwng Cymraeg a'r addysgu cyfrwng Saesneg, er mai Ffrangeg yw prif iaith yr addysgu (e.e. pe addysgid modiwl llenyddiaeth Ffrangeg gyda darlithoedd

yn y Gymraeg a'r seminarau yn y Ffrangeg, byddai modd cofnodi'r modiwl hwn yn 100% cyfrwng Cymraeg).

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	3 / 3	(100%)	(@ 0.8)	(= 80% o 10cr)	(= 8cr)
Seminarau	0 / 0	(0%)	(@ 0)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	3 / 3			= 80%	= 8
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					100%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					10

Enghraifft A12:

Modiwl 10 credyd lle mae'r addysgu yn ystod yr oriau cyswllt i gyd drwy gyfrwng y Saesneg, ond lle bydd y myfyrwyr i gyd yn dysgu mewn amgylchedd dwyieithog, e.e. lle mae'r sleidiau darlith, nodiadau darlith, deunyddiau dysgu ategol ar y platfform e-ddysgu, ayyb, i gyd yn gyfan gwbl ddwyieithog.

Dylid cyfrifo dim mwy na 10% o'r modiwl hwn yn gyfrwng Cymraeg – i'r siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd.

Cydrannau	# yn Gymraeg	% o'r profiad	pwysoliad	% cyfrwng Cymraeg	credydau
A. Oriau Cyswllt					
Darlithoedd	0 / 10	(0%)	(@ 0.2)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Seminarau	0 / 10	(0%)	(@ 0.6)	(= 0% o 10cr)	(= 0cr)
Cyfanswm oriau cyswllt	0 / 20			= 0%	= 0
B. Asesiad(au) (un asesiad neu ragor yn Gymraeg)	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
C. Dysgu hunan-gyfeiriedig	☒		@ 0.1	= 0%	= 0
NEU:					
Ch. Dysgu Dwyieithog	☒		@ 0.1	= 10%	= 1
Canran o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg					10%
Cyfanswm credydau sydd wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg					0

Er taw Saesneg yw cyfrwng addysgu'r modiwl hwn yn ystod yr oriau cyswllt strwythuredig (h.y. y darlithoedd a'r seminarau), darperir profiad dysgu dwyieithog lefel isel, goddefol i'r myfyrwyr i gyd. Oherwydd hynny, wrth gynllunio'r modiwl bydd modd i gydlynnydd y modiwl nodi yn y disgrifiydd modiwl fod hyd at 10% o'r profiad dysgu ar gael yn ddwyieithog. Wrth adrodd i HESA bydd modd adrodd fod pob myfyriwr ar y modiwl wedi cael rhywfaint o brofiad dwyieithog - o ganlyniad i'r amgylchedd dysgu dwyieithog.

O ddilyn y dull cyfrifo uchod ar gyfer yr enghraifft hwn, byddai cofnod data myfyriwr sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â myfyriwr di-Gymraeg yn dangos yr un peth - sef eu bod wedi cael profiad dysgu dwyieithog ar y modiwl. Byddai hynny'n cyfateb i ddim mwy na 10% o gredydau'r modiwl, sef 1 credyd yn yr achos hwn. Fodd bynnag, pe byddai'r

myfyriwr Cymraeg ei iaith hefyd wedi cwblhau asesiad yn y Gymraeg, byddai modd dychwelyd nifer uwch o gredydau cyfrwng Cymraeg yng nghofnod y myfyriwr unigol hwnnw (felly 1 credyd am y dysgu hunan-gyfeiriedig trwy gyfrwng y Gymraeg ac 1 credyd am yr asesiadau. Noder na ddylid cyfrifo credydau dysgu hunan-gyfeiriedig **a** chredydau dysgu dwyieithog goddefol ar yr un pryd – gellir cyfrifo'r naill neu'r llall, ond nid y ddau).

Dylai pob disgrifydd modiwl ddangos yn glir pa fodiwlau sy'n cynnwys elfen o ddysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, beth yw gwerth canrannol y profiad cyfrwng Cymraeg, a pha gydrannau dysgu sydd yn gyfrwng Cymraeg neu'n cynnwys elfen o brofiad dysgu dwyieithog. Gellid defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i farchnata a hyrwyddo modiwlau a chysiau sy'n cynnig profiadau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn helpu myfyrwyr hefyd i adnabod pa fodiwlau sy'n cynnig profiad dysgu mwy cynhwysfawr cyfrwng Cymraeg, neu brofiad dysgu sydd wedi'i gyfyngu i un goddefol dwyieithog yn unig.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain er mwyn darlunio sut y gellir yn rhesymol ddefnyddio model fel yr un a amlinellir uchod gan y Coleg i gyfrifo'r elfen Gymraeg mewn modiwlau. Nid yw'r enghreifftiau hyn yn trin yr holl ystod posib o amgylchiadau amrywiol ar gyfer pob modiwl. Cyfrifoldeb y cydlynnydd modiwl yw dangos pa elfennau neu 'gydrannau' – a pha faint o'r cydrannau hynny – y gellir yn **rhesymol** eu hystyried yn brofiadau sydd yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Ar gyfer mathau penodol iawn o weithgaredd dysgu (e.e. lleoliad gwaith), dylid diffinio hefyd isafswm o'r ddarpariaeth a / neu brofiad i'r myfyrwyr sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhestr gynhwysfawr o wahanol fathau o brofiadau dysgu oddi fewn i fodiwlau yn **Atodiad B**. Mae'r rhestr hefyd

yn cynnwys isafswm disgwyliadau ar gyfer gallu ystyried yn rhesymol fod y profiad dysgu yn 'gyfrwng Cymraeg'.

B. Adrodd ar fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg

Bydd myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar fodiwl sydd wedi'i adnabod yn un cyfrwng Cymraeg (h.y. lle mae'r disgrifydd modiwl yn adnabod cydrannau dysgu Cymraeg neu ddwyieithog) yn cael eu cynnwys yn y niferoedd sy'n cael eu hadrodd i HESA. Fodd bynnag, mae'r data a ddychwelir i HESA yn gallu amrywio o unigolyn i unigolyn gan ddibynnu ar faint o'r modiwl y byddant wedi eu cwblhau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Os yw myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar fodiwl Cymraeg yn cwblhau yr holl gydrannau sydd wedi'u cynllunio i fod ar gael yn y Gymraeg (gan gynnwys cwblhau o leiaf un o'r asesiadau gofynnol trwy gyfrwng y Gymraeg), yna byddant wedi cwblhau canran uchaf posib y modiwl a ddiffinnir fel 'cyfrwng Cymraeg'. Fodd bynnag, fel a nodwyd eisoes ni fydd pob myfyriwr, am wahanol resymau, wedi cwblhau rhai, neu'r cyfan, o'r cydrannau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael (megis yr asesiadau gofynnol yn y Gymraeg), a byddant wedi'u cwblhau yn lle yn Saesneg. Bydd cydlynnydd modiwl yn gallu hysbysu'r Swyddfa Academaidd ar ddiwedd y modiwl a oes unrhyw fyfyrwr heb gwblhau'r holl gydrannau sydd ar gael yn y Gymraeg (megis yr asesiadau). Er enghraifft, gan taw gwerth yr elfen asesu yw 10% o'r profiad dysgu cyfan, gellir addasu cofnodion myfyrwyr unigol sydd heb gwblhau unrhyw asesiadau yn y Gymraeg drwy leihau gwerth canrannol y modiwl i'r myfyrwyr hynny o 10%.

Ystyrier yr enghreifftiau sy'n dilyn er mwyn darlunio sut yn rhesymol y dylid adrodd y myfyrwyr sydd wedi dilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg:

Enghraifft B1: Pob myfyriwr ar fodiwl yn cael eu haddysgu ar y cyd ac yn derbyn yr un faint o addysg cyfrwng Cymraeg, a phawb yn cyflwyno eu hasesiadau yn y Gymraeg.

Dylid adrodd pob myfyriwr â'r un nifer o gredydau.

Enghraifft B2: Darperir yr elfen Gymraeg o'r modiwl fel grwpiau seminar. Bydd y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn mynd i ddarlithoedd gyda'u cyfoedion cyfrwng Saesneg, ond yn mynd i seminarau ar wahân sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, a chwblhau eu haseiniadau i gyd yn y Gymraeg.

Bydd y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu hadrodd yn dilyn y ganran a nodir yn y disgrifydd modiwl trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bydd y myfyrwyr cyfrwng Saesneg yn cael eu hadrodd â 0 credydau cyfrwng Cymraeg (oni bai fod yr amgylchedd dysgu yn gyfan gwbl ddwyieithog ac felly yn teilyngu 10% o isafswm profiad dysgu dwyieithog goddefol i bawb i gydnabod yr amgylchedd dwyieithog a brofasant wrth astudio'r modiwl).

Enghraifft B3: Yr un modiwl ag enghraifft B2, ond mae 3 o'r myfyrwyr wedi dewis cwblhau eu haseiniadau yn Saesneg.

Tra bydd y myfyrwyr eraill wedi cwblhau y ganran uchaf o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg, bydd y tri myfyriwr hyn wedi cwblhau canran is (h.y. pob elfen arall o'r modiwl llai yr asesiad – sef 10% o'r profiad dysgu Cymraeg sydd ar gael).

Enghraifft B4: Cyflwynir elfen fechan o astudio cyfrwng Cymraeg i'r holl fyfyrwyr ar fodiwl (myfyrwyr Saesneg eu hiaith a Chymraeg eu hiaith), e.e. cyflwyniad i ymwybyddiaeth iaith a defnydd o ymadroddion Cymraeg elfennol mewn cyd-destun gofal iechyd.

Er na thraddodir unrhyw addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar y modiwl hwn, mae'r modiwl yn cynnig profiad dysgu dwyieithog goddefol i'r myfyrwyr i gyd. Oherwydd mai profiad cyfrwng Cymraeg lefel isel a ddarperir i'r myfyrwyr, 10% yn unig o werth y modiwl y gellir yn rhesymol adrodd y mae'r myfyrwyr wedi astudio yn y Gymraeg. Pe byddai mwy o gynnwys y modiwl yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, neu pe byddai ffocws y modiwl ar ddysgu Cymraeg i'r myfyrwyr, yna byddai cyfran o'r dysgu ffurfiol yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, a byddai'r holl fyfyrwyr yn cael eu hadrodd wedi astudio yr un ganran trwy gyfrwng y Gymraeg.

Enghraifft B5: Addysgir y modiwl hwn yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ceir elfen o leoliad gwaith lle gall y rhyngweithio cyfrwng Cymraeg amrywio o leoliad i leoliad ac o gyflogwr i gyflogwr, ac weithiau o ddydd i ddydd hefyd.

Mewn sefyllfa fel hyn, lle mae'n anodd os nad yn amhosib cyfrifo'r ganran o'r modiwl a ddilynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr unigol, dylai sefydliadau ddod i farn rhesymol pa ganran ar gyfartaledd o'r elfen yma o'r modiwl sydd ar gael yn y Gymraeg, ac adrodd yr un ganran i bob myfyriwr ar y modiwl (er y bydd rhai myfyrwyr mewn gwirionedd wedi profi canran ychydig yn uwch na'r cyfartaledd trwy gyfrwng y Gymraeg, tra bod eraill wedi profi canran ychydig yn is).

Cymorth pellach

Anogir sefydliadau a staff unigol sydd am dderbyn cyngor ac arweiniad ar sefyllfaoedd neu enghreifftiau penodol i gysylltu gyda'r Coleg Cymraeg yn uniongyrchol.

Atodiad B – tabl dulliau addysgu

Mae'r tabl hwn yn rhestru gwahanol fathau o brofiadau dysgu oddi fewn i fodiwlau addysg uwch. Mae hefyd yn cynnwys isafswm disgwyliadau ar gyfer gallu ystyried yn rhesymol fod y profiad dysgu yn 'gyfrwng Cymraeg'.

Math o fodiwl	Isafswm Disgwyliadau
Modiwl Prosiect Ymchwil	Goruchwylio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â gwaith yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg
Darlith cyfrwng Cymraeg	- Cyflwyniad drwy gyfrwng y Gymraeg - Sleidiau a deunydd cefnogol ar gael yn y Gymraeg - Llyfryddiaeth sy'n cynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg
Seminar cyfrwng Cymraeg	- Trafodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg - Deunydd cefnogol ar gael yn y Gymraeg - Llyfryddiaeth sy'n cynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg
Tiwtorialau	Tiwtor sy'n medru'r Gymraeg ac yn cynnal trafodaeth ac yn cynnig adborth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dysgu Ymarfer (lleoliadau) ar gyfer Nysio, Bydwreigiaeth, Gwyddorau Gofal Iechyd	Dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i fynychu lleoliad(au) yng Nghymru. • Dylid annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfathrebu gyda chleifion neu aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg • Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gyda staff ar leoliad sy'n medru'r Gymraeg (a darparu Goruchwylwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer sy'n medru'r Gymraeg, lle bo modd) • Rhaid sicrhau Aseswyr Academaidd sy'n medru'r Gymraeg.
Dysgu Ymarfer (lleoliadau) ar gyfer Fferylliaeth	Dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i fynychu lleoliad(au) yng Nghymru. • Dylid sicrhau tiwtoriaid cyn-gofrestru sy'n medru'r Gymraeg • Dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i fynychu

	lleoliad(au) yng Nghymru ac mewn ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg lle bo modd
Lleoliadau Clinigol (Meddygaeth, Deintyddiaeth)	Dylid rhoi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg i fynychu lleoliad(au) yng Nghymru. • Dylid annog myfyrwyr i fyfyrio ar eu profiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfathrebu gyda chleifion neu aelodau o'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg • Dylid cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr weithio gyda staff ar leoliad sy'n medru'r Gymraeg
Profiad Dysgu (lleoliadau) ar gyfer cyrsiau TAR, BA Addysg gyda SAC, ayyb	Mae Meini Prawf Achredu ar gyfer cyrsiau AGA yn gofyn i Bartneriaethau: 'annog pob athro dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg (ni waeth p'un a yw ar gwrs sy'n ei baratoi i addysgu yn Gymraeg) i ymgymryd ag o leiaf un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.' Ac ar gyfer

	hyfforddeion sy'n 'dymuno dilyn gyrfa mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog' nodir: 'Caiff pob lleoliad ysgol prif ffrwd ei gynnal mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.' Er mwyn cofnodi credydau modiwl Profiad Dysgu fel rhai cyfrwng Cymraeg, felly, rhaid sicrhau: • bod un neu'r ddau o'r lleoliadau wedi cael eu cynnal mewn ysgol cyfrwng Cymraeg; neu • wedi cael eu cynnal yn y ffrwd Gymraeg mewn ysgol 'ddwyieithog' dwy-ffrwd; neu • os yw'r Profiad Dysgu'n digwydd mewn ysgol 'ddwyieithog' heb fod mewn ffrydiau ar sail iaith, bod y mwyafrif o'r profiad yn digwydd mewn dosbarthiadau ble addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg a bod cefnogaeth mentor yn y Gymraeg.
--	---

Dysgu o bell	Dylid sicrhau bod yr adnoddau a'r deunydd cefnogol ar gael yn y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog a dylid gwerthuso'r defnydd o'r adnoddau cyfrwng Cymraeg.
Dysgu yn seiliedig ar achos (Meddygaeth)	Dylid sicrhau hwylusydd hyfforddedig sy'n medru'r Gymraeg. Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd.
Gweithgareddau Clinigol wedi'u hefelychu	Dylid sicrhau hwylusydd hyfforddedig sy'n medru'r Gymraeg. Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd.
Gwaith yn y labordy (Gwyddorau)	Dylid sicrhau hwylusydd neu arddangoswr hyfforddedig sy'n medru'r Gymraeg. Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd.
Gwaith yn y stiwdio (Celfyddydau)	Dylid sicrhau goruchwyliaeth gan unigolyn cymwys sy'n medru'r Gymraeg.

	Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd. Dylid sicrhau bod adnoddau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a bod pob briff ar gael yn y Gymraeg.
Sesiwn Hyfforddi	Dylid sicrhau goruchwyliaeth gan unigolyn neu unigolion cymwys sy'n medru'r Gymraeg. Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd a gyda hyfforddwyr sy'n medru'r Gymraeg.
Gwaith hunan-gyfeiriedig	Dylid darparu llyfryddiaeth sy'n cynnwys adnoddau cyfrwng Cymraeg.
Gwaith Maes	Dylid sicrhau goruchwyliaeth gan unigolyn neu unigolion cymwys sy'n medru'r Gymraeg. Dylid grwpio myfyrwyr cyfrwng Cymraeg gyda'i gilydd.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys pob dull addysgu a bydd y rhestr yn datblygu ac yn esblygu dros amser. Yn y cyfamser, cysylltwch â'r Coleg os oes gennych unrhyw

gwestiynau yn ymwneud â chyfrifo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, neu os oes dulliau addysgu ychwanegol yr hoffech eu hychwanegu at yr atodiad hwn.